




ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ar Drywydd Dysgu: Llyfryn asesu



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Thema 1: Ymateb i stimwli	7
Thema 2: Ymateb i bobl	14
Thema 3: Ymateb i batrwm a gyflwynir fwy nag unwaith	18
Thema 4: Arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall	22
Thema 5: Gwybod lle mae gwrthrych	29
Thema 6: Gweithredu o fewn amgylchedd y dysgwr	34
Thema 7: Bod yn gymdeithasol	40
Thema 8: Newid ffocws	46
Thema 9: Cysylltu gweithred â chanlyniad	51
Thema 10: Gweithredu i dynnu sylw eraill	56
Thema 11: Datrys problemau	62
Thema 12: Dewis opsiynau	68
Cydnabyddiaethau	73

Cyflwyniad

Y llyfryn hwn yw sail proses asesu Ar Drywydd Dysgu. Darperir yr egwyddorion sydd y tu ôl i'r broses asesu a'r canllawiau ar gyflawni anghenion dysgwyr sydd ag anghenion dysgu dwys a lluosog (ADDLI) yn y ddogfen *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau*. Dylai ymarferwyr ddarllen y canllawiau hyn ac, yn benodol, yr adran 'Defnyddio Ar Drywydd Dysgu i gefnogi gwaith asesu' (tudalennau 11–13) cyn dechrau defnyddio'r llyfryn asesu hwn. Dylid defnyddio'r llyfryn asesu hwn ochr yn ochr ag *Ar Drywydd Dysgu: Map llwybrau* a'r fideos Ar Drywydd Dysgu sy'n darparu enghreifftiau clir o'r ddysgwyr yn arddangos yr ymddygiadau. Gellir gweld y gyfres gyflawn o ddeunyddiau Ar Drywydd Dysgu ar-lein yn hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu

Mae'r llyfryn asesu hwn yn darparu mwy o fanylion am yr ymddygiadau a nodir yn y Map llwybrau. Ar gyfer pob un o focsys (neu 'gamau') y Map llwybrau, awgrymir gweithgareddau asesu addas, ynghyd â nodweddion i chwilio amdany'n nhw yn ystod y weithgaredd, a strategaethau addysgu a fydd yn helpu'r dysgwr i ddatblygu. Darperir manyleb i sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng pob cam unigol a chamau eraill. Rhoddir enghreifftiau naratif hefyd yn dangos sut y gwnaeth dau ddysgwr gwahanol arddangos ymddygiad sy'n gyson â bocs y Map llwybrau.

Nodir yr ymddygiadau cynharaf a welir ymhlith dysgwyr sydd ag ADDLI ar ben uchaf y Map llwybrau. Bydd gwahanol ddysgwyr yn dilyn llwybrau amrywiol, gan symud tuag i lawr drwy'r bocsys. Dangosir y cerrig milltir allweddol y mae disgwyl i bob dysgwr basio trwyddyn nhw mewn bocsys oren ar y Map llwybr ac mae gwybodaeth amdany'n nhw wedi ei chyflwyno mewn testun oren yn y llyfryn asesu hwn. Gall dysgwyr gymryd gwahanol llwybrau trwy amrywiol 'camau' (bocsys gwyrdd) i gyrraedd y cerrig milltir hyn.

Er bod bocsys y Map llwybrau wedi'u rhifo o 1 i 43 (heb rif 8), ni fydd y dysgwyr, o reidwydd, yn symud o un i'r llall yn nhrefn y rhifau¹. Er mwyn pwysleisio ymhellach y nodwedd hon o Ar Drywydd Dysgu, ni chyflwynir y bocsys yn nhrefn y rhifau yn y llyfryn asesu. Yn hytrach, maen nhw wedi'u grwpio'n ddeuddeg 'thema'.

Bwriedir i bob thema adlewyrchu ymddygiadau cysylltiedig, gan dynnu sylw ar yr un pryd at elfen benodol pob un o'r bocsys. O fewn y themâu, caiff bocsys y Map llwybrau eu trefnu yn ôl eu rhifau ond ni fydd y dysgwyr o reidwydd yn eu cyflawni mewn cyfres hierarchaidd. Nid yw'r themâu eu hunain yn llwybrau penodol y byddem, o reidwydd, yn disgwyl i'r dysgwyr eu dilyn, gan eu bod yn rhyng-gysylltiedig mewn sawl ffordd.

Y bocsys ar waelod y Map llwybrau (41–43) sy'n galw am y datblygiad mwyaf ymhlith dysgwyr sydd ag ADDLI, ac maen nhw'n gorgyffwrdd ag elfennau y gellir efallai eu disgwyl gan ddysgwyr ifanc sydd ag anawsterau dysgu difrifol.

¹ I gael rhagor o wybodaeth ynghylch rhifau'r Map llwybrau, gweler y nodyn esboniadol yn hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/ar-drywydd-dysgu.

Mae ochr chwith y Map llwybrau yn nodi ymddygiadau sy'n ymwneud â sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol, ac mae'r rhyngweithio sy'n ymwneud yn fwy ag amgylchedd y dysgwr yn cael ei nodi tuag at yr ochr dde. Yn y rhan ganol, nodir elfennau o ddatblygiad gwybyddol cynnar nad ydyn nhw bob amser yn weladwy yn uniongyrchol ond y gellir eu casglu o ymddygiad dysgwyr. Nid yw'r meysydd hyn yn diffinio'r themâu unigol. Fodd bynnag, mae Themâu 2, 4, 7, 10 a 12 yn ymwneud yn gryf â rhyngweithio â phobl; mae soffistigeiddrwydd cynyddol yn rhyngweithio'r dysgwyr â phethau yn amlwg yn Themâu 1, 6 ac 11; ac mae Themâu 3, 5, 8 a 9 yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygiad gwybyddol.

Mae'r deuddeg thema yn ffordd bellach o ystyried y cysylltiadau rhwng bocsys a dylen nhw helpu ymarferwyr i feddwl am y rhannau o'r Map llwybrau lle mae'r dysgwyr unigol yn dangos potensial. Mae gwybodaeth ragarweiniol ar bob thema a sawl cwestiwn allweddol y bydd ymarferwyr am eu hystyried efallai wrth edrych ar y dystiolaeth sydd wedi'i chasglu am ymatebion y dysgwyr, a chyn penderfynu i ba focs penodol y Map llwybrau y mae'r dystiolaeth yn berthnasol efallai.

Dyma ddeuddeg thema'r Map llwybrau yn y llyfryn asesu hwn:

1. Ymateb i stimwli
2. Ymateb i bobl
3. Ymateb i batrwm a gyflwynir fwy nag unwaith
4. Arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall
5. Gwybod lle mae gwrthrych
6. Gweithredu o fewn amgylchedd y dysgwr
7. Bod yn gymdeithasol
8. Newid ffocws
9. Cysylltu gweithred â chanlyniad
10. Gweithredu i dynnu sylw eraill
11. Datrys problemau
12. Dewis opsiynau.

Dyma focsys a cherrig milltir y Map llwybrau sy'n ymwneud â phob thema.

- **Thema 1: Ymateb i stimwli**

- Carreg filltir 1 y Map llwybrau (Sylwi ar stimwlws)
- Bocs 3 y Map llwybrau (Ymateb i stimwlws amlwg iawn)
- Bocs 6 y Map llwybrau (Ymateb i amrywiaeth o stimwli)
- Carreg filltir 9 y Map llwybrau (Ymateb yn gyson i un stimwlws)
- Bocs 12 y Map llwybrau (Ymateb yn wahanol i wahanol stimwli)

- **Thema 2: Ymateb i bobl**
 - Bocs 2 y Map llwybrau (Ymateb i gysylltiad corfforol agos â pherson cyfarwydd)
 - Bocs 5 y Map llwybrau (Ymateb i lais cyfarwydd neu nodwedd bersonol arall)
- **Thema 3: Ymateb i batrwm a gyflwynir fwy nag unwaith**
 - Bocs 4 y Map llwybrau (Dangos ei fod yn gyfarwydd â stimwlws sydd newydd ei gyflwyno)
 - Bocs 14 y Map llwybrau (Rhagweld stimwlws sy'n cael ei gyflwyno drosodd a throsodd)
- **Thema 4: Arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall**
 - Bocs 7 y Map llwybrau (Gyda chymorth, cymryd tro gydag oedolyn mewn sefyllfa 1:1)
 - Bocs 11 y Map llwybrau (Ymateb i rai stimwli mewn ffordd y gellir ei dehongli fel gwrthodiad)
 - Bocs 13 y Map llwybrau (Dod â rhyngweithio ag oedolyn i ben)
 - Bocs 22 y Map llwybrau (Ymateb mewn ffyrdd y gellir eu dehongli i olygu 'mwy')
 - Bocs 28 y Map llwybrau (Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol)
- **Thema 5: Gwybod lle mae gwrthrych**
 - Bocs 10 y Map llwybrau (Am gyfnod byr, dilyn stimwlws sy'n symud)
 - Bocs 20 y Map llwybrau (Edrych, am gyfnod byr, ar ôl i wrthrych ddiflannu o'i olwg)
 - Carreg filltir 34 y Map llwybrau (Sefydlogrwydd gwrthrychau)
- **Thema 6: Gweithredu o fewn amgylchedd y dysgwr**
 - Bocs 16 y Map llwybrau (Gyda chymorth, archwilio'r amgylchedd sy'n union o'i amgylch)
 - Bocs 21 y Map llwybrau (Mewn amgylchedd ymatebol ailgyflawni gweithred sy'n creu adborth synhwraidd)
 - Bocs 24 y Map llwybrau (Mewn amgylchedd arferol ailgyflawni gweithred sy'n creu adborth synhwraidd)
 - Bocs 27 y Map llwybrau (Cychwyn archwilio'r amgylchedd sy'n union o'i amgylch yn fwriadol)
- **Thema 7: Bod yn gymdeithasol**
 - Bocs 17 y Map llwybrau (Rhagweld yng nghyd-destun arferion cymdeithasol cyfarwydd)
 - Bocs 30 y Map llwybrau (Yng nghyd-destun gêm gymdeithasol gyfarwydd, dal ati i ailgyflawni gweithred er mwyn cael gwobr)
 - Bocs 33 y Map llwybrau (Cychwyn gêm gymdeithasol)
 - Bocs 40 y Map llwybrau (Talu sylw ar y cyd)

- **Thema 8: Newid ffocws**
 - Bocs 18 y Map llwybrau (Ailgyfeirio sylw at ail wrthrych)
 - Bocs 25 y Map llwybrau (Newid ymddygiad wrth ymateb i ddigwyddiad diddorol gerllaw)
 - Bocs 29 y Map llwybrau ('Edrych' yn ôl ac ymlaen o un gwrthrych i'r llall (gwybod bod dau wrthrych yn bresennol))
- **Thema 9: Cysylltu gweithred â chanlyniad**
 - Bocs 19 y Map llwybrau (Gweithredoedd damweiniol yn achosi effaith)
 - Carreg filltir 23 y Map llwybrau (Ymateb i achos ac effaith)
 - Carreg filltir 26 y Map llwybrau (Dangos dealltwriaeth bod gweithred ganddo yn achosi effaith benodol)
- **Thema 10: Gweithredu i dynnu sylw eraill**
 - Bocs 15 y Map llwybrau (Gwrthwynebu dod â rhyngweithio i ben)
 - Bocs 32 y Map llwybrau (Tynnu sylw)
 - Bocs 39 y Map llwybrau (Tynnu sylw person arall yn fwriadol er mwyn cyfathrebu angen)
 - Carreg filltir 43 y Map llwybrau (Cychwyn strategaethau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir mewn amryw o gyd-destunau (arfer ymreolaeth))
- **Thema 11: Datrys problemau**
 - Bocs 31 y Map llwybrau (Ailgyflawni gweithred pan yw'r ymgais gyntaf yn aflwyddiannus)
 - Bocs 35 y Map llwybrau (Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn er mwyn cael gwobr)
 - Bocs 38 y Map llwybrau (Addasu gweithred pan nad yw ailgyflawni'r weithred yn gweithio)
 - Bocs 42 y Map llwybrau (Dangos arwyddion cynnar o ddatrys problemau – rhoi cynnig ar strategaeth newydd pan yw'r hen un yn methu)
- **Thema 12: Dewis opsiynau**
 - Bocs 36 y Map llwybrau (Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau)
 - Bocs 37 y Map llwybrau (Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar)
 - Bocs 41 y Map llwybrau (Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, bod yn well ganddo eitemau nad ydyn nhw'n bresennol)

Thema 1: Ymateb i stimwli

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.


Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth ddod ar draws profiadau synhwyaidd.

Cynrychiolir rhai o focsys cynharaf y Map llwybrau yn y thema hon. Wrth asesu'r dysgwr mewn perthynas â'r bocsys hyn, rhaid arsylwi'n ofalus newidiadau yn ymddygiad y dysgwr pan gyflwynir stimwli synhwyaidd iddo yn systemataidd. Mae'r gwaith asesu a wneir ar gyfer y thema hon yn sefydlu gwybodaeth ynghylch:

- ystod a soffistigeiddrwydd yr ymatebion echddygol sydd ar gael i'r dysgwr
- y synhwyaiau sydd ar gael i'r dysgwr a'r hyn sydd orau ganddo
- y mathau o stimwli sy'n dal sylw'r dysgwr
- yr hyn y mae'n ei hoffi ac nad yw'n ei hoffi.

Asesu ymateb dysgwyr i stimwli

- Mae recordio gweithgareddau asesu ar fideo o gymorth, yn enwedig os nad yw'r dysgwr fel pe bai'n ymateb mewn ffordd amlwg. Gwyliwch unrhyw fideo rydych chi wedi'i wneud gydag aelodau o dîm y dosbarth, ac yna trafodwch yr hyn a welwch. Efallai y bydd aelodau o'r teulu yn gallu cyfrannu hefyd.
- Efallai y bydd yr *Affective Communication Assessment (ACA)*² o gymorth i chi strwythuro eich sylwadau a'ch trafodaethau.
- Ceisiwch ddarganfod a chofnodi pa rai o synhwyaiau'r dysgwr sydd gryfaf. Defnyddiwch y rhain gyntaf yn eich gweithgareddau yn y dyfodol, ond dylech chi barhau i gynnig profiadau synhwyaidd eraill hefyd.
- Wrth asesu ymatebion gweledol dysgwyr, efallai y bydd yr *Eye-Pointing Classification Scale (eyePoint scale)*³ o gymorth i chi. Mae'n disgrifio sut mae plant sydd â pharlys yr ymennydd sy'n effeithio ar y corff cyfan, ac nad ydyn nhw'n gallu siarad, yn defnyddio'u llygaid.



² Coupe, J., Barton, L., Barber, M., Collins, L., Levy, D. and Murphy, D. (1985) *Affective Communication Assessment*. Manceinion: Melland School.

³ Coleg Prifysgol Llundain ac Ysbyty Great Ormond Street Hospital. *Eye-Pointing Classification Scale*. Gwefan: www.ucl.ac.uk/gaze (Saesneg yn unig)

- Dechreuwch gyda stimwlws amlwg iawn ar y corff neu'n agos ato. Efallai y bydd y dysgwr yn ymateb i wyneb cyfarwydd neu symudiad bach.
- Wrth ddefnyddio unrhyw stimwlws synhwyraidd, rhwng gynig ar batrwm 'symud/ stopio', gan oedi cyn aildechrau cyflwyno'r stimwlws er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwr brofi'r gwahaniaeth.
- Pan nad oes ymateb o gwbl, gwnewch y stimwlws yn fwy amlwg, gan gynyddu'r gwahaniaeth rhwng y stimwlws a'r cefndir. Fodd bynnag, ceisiwch osgoi gwneud y stimwlws mor uchel nes ennyn ymateb 'braw' yn y dysgwr.
- Gweler 'Dysgu drwy gyffwrdd' ar dudalennau 38–40 o *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau* i gael gwybod mwy am gyffyrddiad.
- Ymgynghorwch â gwasanaeth synhwyraidd eich awdurdod lleol i gael cyngor pellach am nam ar y golwg.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Ydy unrhyw newid mewn ymddygiad yn sicr o ganlyniad i'r stimwlws (yn hytrach nag i rywbeth mewnol neu symudiad atgyrchol)?
- I ba raddau mae modd 'ail-greu' unrhyw ymateb, a pha amodau sy'n ofynnol er mwyn i hyn ddigwydd?
- Pa ystod o stimwli sy'n ennyn ymateb?
- Beth yw ystod ymatebion y dysgwr?

1 Sylwi ar stimwlws

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cyflwynwch stimwlws, yna oedi.

- Cyflwyno dirgryniad, e.e. tylinydd neu glustog dirgrynu.
- Taenu mymryn o flas ar wefusau'r dysgwr.
- Dal jar o rywbeth sy'n arogl'n gryf o dan drwyn y dysgwr
- Gosod llaw'r dysgwr ar botel dŵr poeth wedi'i gorchuddio â defnydd meddal, ar arwyneb garw fel papur tywod, neu o dan lif o ddŵr cynnes.
- Chwarae cerddoriaeth neu gân gyfarwydd; defnyddio offerynnau cerddorol.
- Cyflwyno golau tortsh sy'n adlewyrchu ar arwyneb disglair. Os nad oes ymateb, triwch ei symud ychydig.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am unrhyw newidiadau mewn ymddygiad nad ydyn nhw'yn ymatebion atgyrchol, er enghraifft:

- llonyddu (oedi am foment)
- troi (y pen, y llygaid, neu'r corff)
- symud gwefusau/tafod
- ffroenau yn chwyddo
- symudiad bach yn y llygad
- newid patrwm anadlu
- tynhau neu ymlacio (efallai y bydd angen i chi fod yn gorfforol agos i synhwyro hyn).

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Gan ddefnyddio dau aelod staff, un yn helpu'r dysgwr i eistedd ac un o'i flaen, ceisiwch dynnu'r dysgwr yn ofalus yn ôl ac ymlaen, ac yna oedi.

Ceisiwch rannau gwahanol o'r corff (efallai fod gwadnau'r traed neu'r gwar yn fwy sensitif).

Ceisiwch symud llaw'r dysgwr (yn enwedig blaenau ei fysedd) ar groen dafad, mewn gel neu ddŵr cynnes, ac ati.

Ceisiwch synau o amledd, soniaredd a hyd amrywiol.

Mewn cornel a dywyllwyd, cyflwynwch batrwm cyson 'stimwlws: dim stimwlws', h.y. golau: dim golau.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae newid o ryw fath yn ymddygiad y dysgwr ym mhresenoldeb y stimwlws.

Nid yw'r newid hwn mewn ymddygiad yn atgyrch amlwg (e.e. am ei fod wedi cael braw), nac yn ymateb i rywbeth mewnol (e.e. anghysur neu eisiau bwyd).

Efallai bod y newid mewn ymddygiad yn fyrhoedlog a heb fod yn amlwg. Efallai mai dim ond ym mhresenoldeb stimwli penodol neu drawiadol iawn y bydd yn digwydd, ac mewn amgylchedd synhwyraidd sy'n cael ei reoli i raddau helaeth (e.e. ystafell dywyll).

Efallai mai dim ond ar ôl arsylwi a chofnodi'n ofalus mewn ffordd systemataidd y bydd modd sylwi ar y newid penodol mewn ymddygiad, ac efallai mai dim ond y rheini sy'n adnabod y dysgwr yn dda fydd yn sylwi arno.

Lle mae 'sylwi' yn ymwneud â'r gweledol, mae'r cam hwn yn gyson â Lefel V yr *eyePoint Scale (Other Visual Behaviours)*:

- *'Acknowledging the presence of objects without clearly fixing on them.*
- *Visual attention given to objects is fleeting and not repeated'.⁴*

Enghreifftiau

Ciledrychodd Amelia am foment tuag at ffynhonnell y golau pan gafodd ei gyflwyno yn y gornel dywyll.

Symudodd leuan ei fraich fymryn pan dynnwyd defnydd meddal drosti.

⁴ Coleg Prifysgol Llundain ac Ysbyty Great Ormond Street. *Eye-Pointing Classification Scale*. Gwefan: www.ucl.ac.uk/gaze (Saesneg yn unig)

3 Ymateb i stimwlws amlwg iawn

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cyflwynwch stimwlws amlwg i'r dysgwr mewn ffordd debyg i Garreg filltir 1 y Map llwybrau (Sylwi ar stimwlws) gan ofalu peidio â chodi braw arno. Defnyddiwch yr wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu am hoff gyfryngau synhwyraidd y dysgwr a chofnodwch y canlyniadau. Rhowch gynnyg ar ddarparu blasau newydd ar ffurf balm gwefusau. Ceisiwch glustog dirgrynu, bwrdd synhwyraidd neu wely dŵr. Cyflwynwch bethau o wead gwahanol, fel tywod cynnes, y gall y dysgwr chwarae â nhw. Rhowch nhw ar wahanol rannau o'r corff. Ceisiwch ddefnyddio offerynnau cerdd, tapiau a theganau cerdd. Defnyddiwch ddyfeisiau pi-po, pypedau a theganau sy'n codi'n sydyn.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am:

- newid yn lefel y gweithgarwch
- defnyddio'r llais
- agor y geg/symud y dafod
- symud bysedd, e.e. ar groen dafad
- cic.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Cynyddwch ystod, cymhlethdod ac amrywiaeth y stimwli a ddefnyddiwyd yng Ngharreg filltir 1 (Sylwi ar stimwlws). Dylid lleihau'n raddol lefel yr ysgogi/gorystumio i lefel fwy naturiol. Os mai dim ond drwy un synnwyr y mae'r dysgwr wedi dangos ymateb hyd yma, dylech geisio ysgogi synhwyrâu eraill sydd ar gael. Ystyriwch lle rydych chi'n eistedd neu'n sefyll mewn perthynas â chwmpas golwg y dysgwr neu ei allu i glywed ac ati (gweler 'Rhwystrau i ddysgu' ar dudalennau 37–42 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau*). Cymerwch ofal wrth gyflwyno stimwlws 'annisgwyl' nad ydych chi'n achosi braw i'r dysgwr. Mae'n arfer da rhybuddio'r dysgwr o rywbeth sydd ar ddigwydd drwy ei gyffwrdd neu ddweud wrtho. Rhaid bod yn ofalus wrth osod stimwli gweledol. Ystyriwch gwmpas golwg y dysgwr. Osgowch eu gosod mewn ffordd sy'n golygu bod y dysgwr yn gorfod edrych i fyny gan y gallai hyn ei wneud yn stiff a/ neu wneud iddo symud yn ôl (holwch gyngor ffisiotherapydd).

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae ymddygiad y dysgwr yn newid ym mhresenoldeb y stimwlws.

Nid yw'n atgyrch nac yn ymateb i rywbeth mewnol.

O'i gymharu â'r newid mewn ymddygiad a gofnodwyd ar gyfer carreg filltir 1 y Map llwybrau (Sylwi ar stimwlws):

- bydd yn gryfach
- efallai y bydd y symudiadau yn rhai mwy, sy'n para'n hirach
- efallai y bydd yr amseru yn cyd-daro â'r stimwlws mewn ffordd fwy amlwg
- efallai y bydd y dysgwr yn fwy parod i ymateb ac y bydd yn digwydd yn amlach.

Gallai fod yn haws dehongli hyn fel 'ymateb' felly, hyd yn oed i rywun nad yw'n adnabod y dysgwr cystal.

Enghreifftiau

Agorodd Jack ei lygaid led y pen a chodi ei ben pan newidiodd y golau yn yr ystafell dywyll.

Mae Megan yn ymateb i chwaon o aer cynnes sy'n dod o ffan, gan wneud synau byrion a symud ei breichiau mewn cyffro.

6 Ymateb i amrywiaeth o stimwli

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Datblygwch weithgareddau a ddefnyddiwyd ar gyfer bocs 3 y Map llwybrau (Ymateb i stimwlws amlwg iawn) gan gynyddu ystod, cymhlethdod ac amrywiaeth y stimwli.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am:

- newid yn lefel y gweithgarwch neu fynegiant yr wyneb
- symud y llygaid, y gwefusau, y dafod
- defnyddio'r llais
- tynhau/ymlacio
- symud breichiau/coesau/bysedd.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Cynyddwch ymhellach ystod, cymhlethdod ac amrywiaeth y stimwli a ddefnyddiwyd yng Ngharreg filltir 1 y Map llwybrau (Sylwi ar stimwlws).

Lleihewch yn raddol lefel yr ysgogi i lefel fwy naturiol.

Os mai dim ond drwy un synnwyr y mae'r dysgwr wedi dangos ymateb hyd yma, dylech chi geisio ysgogi synhwyrâu eraill sydd ar gael. Ystyriwch lle rydych chi'n eistedd neu'n sefyll mewn perthynas â chwmpas golwg y dysgwr neu ei allu i glywed ac ati (gweler 'Rhwystrau i ddysgu' ar dudalennau 37–42 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau* ac hefyd yr wybodaeth am focs 3 y Map llwybrau (Ymateb i stimwlws amlwg iawn) ar dudalen 10 o'r llyfryn asesu hwn i gael rhagor o wybodaeth.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ymateb i ystod ac amrywiaeth ehangach o stimwli gwahanol.

Efallai y bydd ystod y stimwli yn ehangach na'r rheini sydd wedi'u cynllunio'n benodol i greu ysgogiad synhwyrdd cryf.

Efallai y bydd rhai ymatebion yn digwydd y tu allan i amgylcheddau synhwyrdd a reolir.

Fel ym mocs 3 y Map llwybrau (Ymateb i stimwlws amlwg iawn), mae'n hawdd gweld y newid yn ymddygiad y dysgwr, a'i ddehongli fel ymateb.

Efallai y bydd y dysgwr nawr yn ymateb drwy nifer o synhwyrâu, a'i bod yn dod yn haws dirnad pa stimwli mae'n eu hoffi neu nad yw'n eu hoffi.

Enghreifftiau

Roedd Sean yn mwynhau chwarae â defnyddiau ffwr neu feddal, ond pan gyflwynwyd brwshys a phapur tywod, tynnodd ei ddwylo i ffwrdd.

Mae Seren fel pe bai'n hoffi gwead meddal stori synhwyrdd 'y môr', ond nid teimlad dŵr oer; tynnodd ei dwylo allan. Mae'n hapus i sblasio ei dwylo mewn dŵr cynnes. Mae fel pe bai'n hoffi blas siocled, ond nid tatws di-flas wedi'i botsio.

9 Ymateb yn gyson i un stimwlws

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Cyflwynwch stimwlws gweledol/clywedol/cyffyrddol cyfarwydd neu stimwlws synhwyrdd cyfarwydd arall sydd wedi'i ddefnyddio'n gyson gyda'r dysgwr. Defnyddiwch y stimwlws yn yr un ffordd sawl gwaith (ond nid mor aml nes i'r dysgwr ymgyfarwyddo neu ddiflasu ar y stimwlws).

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn ymateb yn yr un ffordd bob tro y cyflwynir stimwlws.
Dylid nodi na fydd ymatebion dysgwyr sydd ag ADDLI yn 'gyson' o un dydd i'r llall, am wahanol resymau.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Gofalwch fod y dysgwr yn gyfforddus ac yn ddiogel (gweler 'Rhai egwyddorion allweddol o ran dysgu effeithiol' ar dudalen 32 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau*).

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ymateb mewn ffordd debyg bob tro yr ailgyflwynir stimwlws penodol.

Mae'n hawdd dehongli ymddygiad y dysgwr ym mhresenoldeb y stimwlws fel ymateb.

Mewn perthynas ag ymddygiad 'edrych' y dysgwr, mae'r cam hwn yn cyfateb i Lefel IV yr *eyePoint Scale (Fixes Gaze)*:

- *'Consistent active ability to fix and hold gaze on ... a stationary target'*.⁵

Enghreifftiau

Mae Aaron bob amser yn gwenu wrth glywed llais ei gynorthwydd tacsî.

Nid yw Sioned yn hoffi sŵn strîbed dolen a bachyn ac mae'n gwingo bob tro mae'n ei glywed yn cael ei dynnu oddi wrth ei gilydd.

⁵ Coleg Prifysgol Llundain ac Ysbyty Great Ormond Street. *Eye-Pointing Classification Scale*.
Gwefan: www.ucl.ac.uk/gaze (Saesneg yn unig)

12 Ymateb yn wahanol i wahanol stimwli

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Cyflwynwch y stimwli yr ydych chi'n credu y mae'r dysgwr yn eu hoffi'n fawr neu nad yw'n eu hoffi o gwbl, a nodwch ymateb y dysgwr. Ydy'r stimwli y credir y mae'r dysgwr yn eu hoffi yn ennyn ymateb gwahanol, gweddol gyson o gymharu â'r stimwli y credir nad yw'n eu hoffi?

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn ymateb mewn ffordd wahanol i:

- un math o wrthrych neu brofiad synhwyraidd o'i gymharu ag un arall
- un dull synhwyraidd (e.e. sŵn) o'i gymharu ag un arall (e.e. blas neu arogl)
- gwrthrychau a phrofiadau synhwyraidd o gymharu â rhyngweithio â phobl.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Ceisiwch ddefnyddio stimwli cryf ychwanegol gan ddefnyddio amrywiol synhwyrau. Gwnewch hyn nifer o weithiau.

Ar ôl ymgynghori â ffisiotherapydd ceisiwch y canlynol.

Gosodwch y dysgwr ar flanced drwchus gan ofalu bod ei ben yn cael ei gynnal, a llusgwch y flanced ar hyd llawr llithrig, gan oedi bob hyn a hyn i roi cyfle i'r dysgwr ymateb.

Rhowch flas i'r dysgwr o rywbeth maen nhw'n debygol o'i hoffi/beidio â'i hoffi, e.e. rhywbeth â blas cryf, unigryw fel rhun burum, sudd lemwn, riwbob, siocled neu fefus. Gellid defnyddio balmau gwefus â blas gwahanol hefyd.

Cyflwynwch ewcalyptws neu arogl cryf arall o fanc aroglau.

D.S. Peidiwch â chyflwyno stimwli sy'n ennyn ymateb negyddol fwy nag unwaith ar yr un achlysur. Yn hytrach, cydnabyddwch yr hyn y mae'r dysgwr yn ei gyfathrebu, a thynnwch y stimwlws oddi wrtho.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn arddangos nifer o ymddygiadau gwahanol wrth ymateb i ystod o stimwli.

Mae'r gwahaniaethau yn ei ymatebion yn dystiolaeth glir o'r hyn sydd orau ganddo.

Enghreiffiau

Mae Martin wrth ei fodd pan fydd rhywun yn canu yn Gymraeg iddo ac mae'n ymateb yn frwdfrydig bob amser i ganu a siarad Cymraeg. Nid yw'n hoffi rhoi ei ddwylo mewn dŵr oer na phaent, ac mae cerddoriaeth uchel yn gwneud iddo neidio.

Bydd Tahayra yn codi ei phen wrth adael adeilad yr ysgol i fynd allan i'r awyr iach. Bydd yn edrych i fyny ar y goleuadau wrth symud o un rhan o'r adeilad i un arall. Mae hi'n chwerthin pan gaiff ei goglais, ond mae'n tynnu i ffwrdd ac yn crio pan gaiff ei braich ei thylino. Mae Tahayra yn anwybyddu swigod yn llwyr, ond yn siglo yn ôl ac ymlaen pan fydd cerddoriaeth uchel yn chwarae.

Thema 2: Ymateb i bobl

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth iddyn nhw ddod ar draws person arall.


Yng nghyd-destun lleoliad/ysgol sy'n dilyn amserlen benodol, ddigynnwrf, mae'r ymarferwyr yn ymateb i anghenion y dysgwyr wrth iddyn nhw godi, gan roi sylw a chynhesrwydd cyson iddyn nhw. Mae'r dysgwyr, felly, yn dod i deimlo'n saff gyda'r oedolion sy'n gweithredu fel 'partneriaid cyfathrebu' iddyn nhw.

Asesu ymatebion dysgwyr i bobl

I ddechrau, gallai fod yn anodd dehongli ymatebion y dysgwyr, ond bydd partneriaid cyfathrebu sy'n gyfarwydd â nhw yn deall eu bod yn dynodi anghysur, cysur neu fynegiant arall o sut maen nhw'n teimlo, a byddan nhw'n ymateb yn unol â hynny. Bydd newidiadau yn iechyd y dysgwyr o ddydd i ddydd, a p'un a ydyn nhw wedi cyffroi neu'n llesg, yn effeithio efallai ar eu hymatebion ar unrhyw un achlysur penodol.

Bydd pobl sy'n nabod y dysgwr yn dda yn gallu awgrymu gweithgareddau a fydd yn ennyn yr ymateb mwyaf. Gallan nhw hefyd awgrymu cyd-destunau neu sefyllfaoedd a allai ennyn yr ymatebion hyn a rhannu gwybodaeth am sut mae'r ymatebion yn wahanol mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Ar gyfer bocs 2 y Map llwybrau (Ymateb i gysylltiad corfforol agos â pherson cyfarwydd), defnyddir rhyngweithio cymdeithasol sy'n cynnwys cysylltiad corfforol agos fel cyd-destun i asesu unrhyw ymddygiadau 'gwirfoddol' (h.y. o fewn rheolaeth y dysgwr ei hun, yn hytrach nag ymatebion atgyrchol). Gan fod yr ymddygiadau hyn yn digwydd pan fydd ei bartner cyfathrebu yn agos iawn at y dysgwr, efallai y byddai'n anodd gwneud fideo, ond gall y partner arsylwi a chofnodi'r ymateb (efallai drwy ddefnyddio'r *Affective Communication Assessment*⁶), gyda'r nod o geisio gweld pa rai yw ymatebion mwyaf dibynadwy y dysgwr a dehongli beth y maen nhw'n ei olygu efallai.



⁶ Coupe, J., Barton, L., Barber, M., Collins, L., Levy, D. a Murphy, D. (1985) *Affective Communication Assessment*. Manceinion: Melland School.

Wrth weithio o fewn y rhan hon o'r Map llwybrau, sy'n cynrychioli'r cyfnod cynnar iawn, efallai nad yw'n glir pa rai o synhwyrâu'r dysgwr sy'n gweithio orau. Efallai y bydd arogl a gwead, felly, yn ogystal â'r ffordd y mae'r oedolyn yn ymwneud â'r dysgwr, yr un mor bwysig o leiaf â'r hyn a welir ac a glywir. Gallai fod yn ddefnyddiol, felly, i bobl sy'n dod i gysylltiad â'r dysgwr yn rheolaidd wisgo neu gario rhywbeth sydd â gwead penodol, sy'n unigryw iddyn nhw – eu nodwedd bersonol. Mae bocs 5 y Map llwybrau (Ymateb i lais cyfarwydd neu nodwedd bersonol arall) yn gofyn am dystiolaeth bod dysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i ryngweithio cymdeithasol agos, yn enwedig pan fydd hyn yn cynnwys partneriaid y maen nhw'n eu nabod yn dda ac yn ymddiried ynddyn nhw.

I ddechrau, mae ymatebion y dysgwyr yn debygol o fod yn ddibynnol iawn ar y cyd-destun a'r weithgaredd benodol.

Mae cysylltiad corfforol yn anhepgor wrth ryngweithio â dysgwyr sydd ag ADDLI, ac yn enwedig wrth asesu bocsys y Map llwybrau a gynrychiolir gan y thema hon. Dylai fod gan ysgolion bolisi 'cyffwrdd priodol' a fydd yn sail i hyn.

Bydd rhai dysgwyr sydd ag ADDLI yn gwneud symudiadau, fel siglo yn ôl ac ymlaen, a byddan nhw'n treulio llawer o amser yn gwneud hyn. Efallai mai lleihad yn y symudiadau hyn (llonyddu) neu roi'r gorau'n llwyr iddyn nhw fydd yr arwydd pennaf eu bod yn ymateb i bresenoldeb person.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Pwy yw'r bobl gyfarwydd ym mywyd y dysgwr hwn?
- Sut mae'r dysgwr yn ymateb pan fydd rhywun yn ei gyffwrdd neu'n ymdrin yn gorfforol ag ef?
- I bob golwg, pa synhwyrâu y mae'r dysgwr yn eu defnyddio i sylweddoli bod person arall yn bresennol?
- Oes angen agosrwydd corfforol er mwyn ennyn ymateb?
- Pa ymatebion ganddo sy'n dweud wrthym ei fod wedi sylwi ar stimwlws?

2 Ymateb i gysylltiad corfforol agos â pherson cyfarwydd

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Daliwch y dysgwr gan siarad neu ganu, a bod yn dawel bob hyn a hyn i roi cyfle iddo ymateb.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am unrhyw newidiadau mewn ymddygiad nad ydyn nhw'n ymatebion atgyrchol, er enghraifft:

- llonyddu (oedi am foment)
- troi (y pen, y llygaid neu'r corff)
- symud gwefusau/tafod
- symudiad bach yn y llygad
- newid patrwm anadlu
- tynhau neu ymlacio (efallai y bydd angen i chi fod yn gorfforol agos i synhwyro hyn).

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Dewiswch synnwyr cryfaf y dysgwr i ddechrau.

Os mai i stimwli clywedol y mae'r dysgwr yn ymateb orau, ceisiwch siarad a chanu yn agos at y dysgwr, gan oedi bob hyn a hyn er mwyn arsylwi'n ofalus beth yw ei ymatebion.

Os yw'r dysgwr yn ymateb yn dda i stimwli gweledol, ceisiwch ddod yn agos ato a defnyddio eich wyneb i gyfathrebu mewn ffordd amlwg iawn.

Yna, cyfunwch y gweledol a'r clywedol.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a champau eraill

Mae ymddygiad y dysgwr yn newid mewn rhyw ffordd tra'i fod mewn cysylltiad corfforol agos â rhywun mae'n ei nabod yn dda.

Nid yw'r newid hwn mewn ymddygiad yn atgyrch amlwg (e.e. am ei fod wedi cael braw), nac yn ymateb i rywbeth mewrol (e.e. anghysur neu eisiau bwyd).

Gellir ei ddehongli fel ymateb i'r oedolyn cyfarwydd neu i rywbeth y mae'r oedolyn cyfarwydd yn ei wneud.

Efallai bod y newid mewn ymddygiad yn fyrhoedlog a/neu heb fod yn amlwg.

Enghreifftiau

Bydd Nadia yn swatio i mewn i'n corff os bydd un ohonom yn ei chofleidio ar ein côl. Yn y safle hwn, bydd yn dechrau gwenu os canwn un o'i hoff rigymau.

Pan yw'n nerfus, mae Lee eisiau cysylltiad agosach ac mae'n dal yr oedolyn yn dynn. Weithiau mae'n defnyddio'i lais pan yw ar ein côl wrth i ni sgwrsio ag ef.

5 Ymateb i lais cyfarwydd neu nodwedd bersonol arall

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Eisteddwch yn agos at y dysgwr – cofleidiwch/cyffyrddwch ef.
Symudwch tuag at y dysgwr, gan siarad neu ganu.
Tynnwch sylw at nodweddion penodol, e.e. mynegiant wyneb amlwg, teimlad gwallt hir, arogl persawr, ac ati.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am:

- lonyddu/tynhau neu ymlacio
- gwenu neu newid mewn mynegiant wyneb
- troi'r pen
- cyswllt llygad am foment
- ymestyn allan/cyffwrdd.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Sicrhewch fod gan bob ymarferydd sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r dysgwr nodwedd neu weithred bersonol. Yn ddefnyddiol, dylai'r nodwedd fod yn rhan annatod o'r person, e.e. gwallt hir, barf ac ati.
Anogwch y dysgwr i adnabod llais – defnyddiwch enw'r dysgwr wrth ddod ato a byddwch yn gyson o ran yr iaith a ddefnyddiwch.
Yn achos dysgwyr sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw, gellir defnyddio nodwedd y gallan nhw eu cyffwrdd.
Os yw'r dysgwr yn ymateb yn amddiffynnol i ymgais i'w annog i gyffwrdd rhywbeth, ceisiwch ddefnyddio synhwyrâu eraill.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae ymateb y dysgwr i berson mae'n ei nabod yn dda iawn yn wahanol i'w ymateb i ddieithryn. Pan fydd rhywun cyfarwydd iawn gerllaw, bydd y dysgwr yn ymlonyddu, neu'n parhau mewn cyflwr bodlon. Efallai y bydd yn troi tuag at y person hwnnw neu'n dangos diddordeb ynddo mewn ffordd arall.
Mae ei ymateb i rywun anghyfarwydd yn debygol o fod yn fwy niwtral, pryderus neu ansicr. Os yw wedi ypsedio, efallai na fydd modd ei gysuro.

Enghreifftiau

Bydd Kamal yn crio os yw rhywun nad yw'n ei nabod (e.e. staff cyflenwi) yn ei helpu, ond bydd yn ymlonyddu pan ddaw un o'r staff cyfarwydd yn ei le. Mae'n gwenu os yw'n gweld neu'n clywed ei ddyn tacsî.

Mae Carys yn ymwybodol iawn o wahanol leisiau. Mae'n troi cyn gynted â'i bod yn clywed llais ei thad wrth iddo ddod drwy ddrws y dosbarth.


Thema 3: Ymateb i batrwm a gyflwynir fwy nag unwaith

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth gyflwyno'r un stimwlws iddyn nhw fwy nag unwaith.

Mae eu hymatebion yn darparu tystiolaeth am elfennau allweddol o wybyddiaeth, ac yn gallu dangos bod y dysgwr yn:

- sensitif i nodweddion stimwlws
- gallu cofio'r nodweddion hynny am ychydig
- gallu gwahaniaethu rhwng stimwli a gyflwynwyd yn ddiweddar a stimwli newydd
- sensitif i batrwm pan gyflwynir stimwlws fwy nag unwaith.



Asesu ymatebion dysgwyr i stimwli a gyflwynir fwy nag unwaith

Mae bocsys Map llwybrau y thema hon yn darparu gwybodaeth am y sylw a roddir gan ddysgwr i stimwli. Mae tystiolaeth gref o faes niwrowyddoniaeth wybyddol nad proses 'unedol' yw talu sylw ond ei fod yn defnyddio nifer o systemau gwahanol rhyng-gysylltiedig, sy'n rheoli agweddau ar y broses o dalu sylw mewn gwahanol ffyrdd. Yr elfennau mwyaf perthnasol yma yw sylw 'detholus', lle mae'r dysgwr yn cael ei ddenu'n gyflym at stimwli neu nodweddion stimwli mwy amlwg, gan ddewis yn fwriadol gwneud hynny (e.e. stimwli mwy o faint, cryfach, sy'n golygu mwy i'r dysgwr ei hun) a sylw 'sefydlog' lle mae'r dysgwr yn mynd ati i archwilio nodweddion a manylion penodol stimwlws yn agosach. Mae talu sylw 'sefydlog' yn broses hirach gan fod angen amser i brosesu.

Os bydd dysgwr yn edrych ar stimwlws am lai o amser pan gaiff ei ailgyflwyno ('gorgyfarwyddo'), bydd hyn yn dystiolaeth ei fod wedi prosesu ei nodweddion yn ddigonol y tro diwethaf er mwyn i'r dysgwr ei gofio (o leiaf am y cyfnod hyd nes i'r stimwlws gael ei ailgyflwyno). Bydd yn edrych am lai o amser gan nad oes angen iddo ailbroseu'r wybodaeth amdano ac, o ganlyniad, nid yw o ddiddordeb iddo mwyach. Ar gyfer y cam hwn yn y Map llwybrau, mae'n bosibl y bydd angen i'r cyfnod rhwng cyflwyno ac ailgyflwyno'r stimwlws fod mor fyr â dau neu dri eiliad. Wrth asesu, dylid ystyried hefyd bod blinder (e.e. yn sgil ymdrech gorfforol, poen neu ddiffyg cwsg) yn gallu amharu ar lefel ymateb dysgwr sydd ag ADDLI.

Mae'r diddordeb newydd a fynegir pan gyflwynir stimwlws newydd neu a addaswyd ('ailennyn diddordeb') yn dangos bod 'newydd-deb' yn ysgogiad mawr i ddysgwyr, yn enwedig yn y cam datblygu hwn. Mae'r ffenomenon hwn hefyd yn dystiolaeth bod y dysgwr yn gallu gwahaniaethu rhwng y stimwlws 'newydd' a'r stimwlws blaenorol (y cyfarwyddwyd ag ef). Defnyddir egwyddor gorgyfarwyddo yn aml, felly, wrth gynllunio gwaith ymchwil i ddatblygiad gwybyddol plant.

Mae modd asesu'r rhan fwyaf o focsys y Map llwybrau mewn ffordd weddol 'naturiol' drwy ryngweithio â'r dysgwr fel rhan o weithgareddau rheolaidd y cwricwlwm. Efallai na fydd asesu'r dysgwr mewn perthynas â bocsys Map llwybrau y thema hon yn teimlo'r un mor naturiol yn hollol. Mae angen manylder mwy os ydym i ddod i gasgliadau cywir am brosesau gwybyddol (na allwn eu harsylwi'n uniongyrchol). Cynghorwn, er enghraifft, ddefnyddio amseredd wrth asesu bocs 4 y Map llwybrau (Dangos ei fod yn gyfarwydd â stimwlws sydd newydd ei gyflwyno) a chofnodi'r union gyfnod y gwnaeth y dysgwr dalu sylw. Efallai y bydd hyn yn gwneud i'r peth deimlo'n fwy fel prawf, ond bydd y casgliadau yn fwy cywir.

Mae bocs 14 y Map llwybrau (Rhagweld stimwlws sy'n cael ei gyflwyno drosodd a throsodd) yn ymwneud â rhagweld ac yn darparu dystiolaeth bod dysgwr yn gallu ffurfio disgwyliadau ynghylch cyfres syml o ddigwyddiadau sy'n digwydd fwy nag unwaith. Mwyaf rheolaidd yn y byd yw'r digwyddiadau, hawsaf yn y byd y caiff y disgwyliadau hyn eu ffurfio. Wrth asesu bocs hwn y Map llwybrau, felly, dylid sicrhau bod y stimwlws yn cael ei ailgyflwyno mewn ffordd mor gyson â phosibl o ran amseru. Mae angen ystyried yn benodol hefyd y pellter corfforol rhwng y dysgwr a'r stimwlws bob tro y caiff ei gyflwyno. Dylai symudiad y dysgwr fod yn ddibynadwy, a dylai fod modd i arsylwr ei weld.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried dystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Am ba mor hir mae'r dysgwr yn talu sylw pan gyflwynir y stimwlws?
- Oes yna wahaniaeth o ran pa mor hir y mae'n talu sylw pan gaiff ei ailgyflwyno?
- Ydy'r dysgwr yn dangos arwyddion o ragweld ei fod am gael ei gyflwyno eto?

4

Dangos ei fod yn gyfarwydd â stimwlws sydd newydd ei gyflwyno

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cyflwynwch y stimwlws i'r dysgwr. Pan fydd y dysgwr yn rhoi'r gorau i dalu sylw, tynnwch y stimwlws oddi yno ar unwaith a'i ailgyflwyno (ni ddylid gadael bwllch o fwy na thair eiliad os yn bosibl). Defnyddiwch amseredd. Os yw'r dysgwr yn talu sylw am lai o amser yr ail waith, mae'n debygol bod y dysgwr yn cofio'r stimwlws. (Efallai y bydd angen i chi roi sawl cynnig ar hyn er mwyn bod yn siŵr.)

D.S. Dylai'r stimwlws fod yn niwtral (ni ddylid defnyddio wyneb oedolyn cyfarwydd na bwyd).

Ceisiwch ddefnyddio bwrdd draffts du a gwyn.

Pethau i chwilio amdany nhw

Edrychwch am:

- leihad mewn diddordeb pan ailgyflwynir y stimwlws
- diddordeb newydd pan gynigir stimwlws newydd.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Cynyddwch hyd y bylchau, chwiliwch am dystiolaeth bod y dysgwr yn cofio'r stimwlws (gweler 'Gorgyfarwyddo' ar dudalen 30 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau*). Defnyddiwch stimwli amrywiol.

Dangoswch stimwlws newydd, yn hytrach na'r un stimwlws eto.

Edrychwch am ddiddordeb newydd.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ymateb i stimwlws drwy edrych yn ofalus neu wrando'n astud am gyfnod o amser.

Pan yw'r dysgwr yn colli diddordeb, tynnir y stimwlws i ffwrdd dros dro.

Pan gaiff ei ailgyflwyno, mae'r dysgwr yn talu sylw eto, ond am gyfnod byrrach na'r tro diwethaf.

Wrth barhau i ailgyflwyno'r un stimwlws, mae'r dysgwr yn talu llai a llai o sylw, os o gwbl.

Pan gyflwynir stimwlws newydd, mae'r cyfnod talu sylw yn llawer hirach.

Enghreifftiau

Yn ystod sesiwn rheoli llywbr llygad, i ddechrau roedd Leila yn dangos diddordeb pan gyflwynwyd y cerdyn sgleiniog. Pan gafodd ei dynnu i ffwrdd a'i ailgyflwyno, ni thalodd sylw am gyfnod mor hir o bell ffordd, a cholodd ddiddordeb yn gyflym.

Roedd Meilyr yn dangos diddordeb yn y llyfr wrth i mi ei 'ddarllen' iddo, ond edrychodd i ffwrdd ar ôl tua hanner munud. Ar ôl hoe fach, rhoddais gynnig ar y llyfr eto, ond y tro hwn dim ond am ryw ddeg eiliad yr edrychodd. Yna, rhoddais y llyfr i lawr a chydio mewn clychau; roedd yn ymateb lawer yn fwy i'r rhain, a daliwyd ei sylw am 28 eiliad.

14

Rhagweld stimwlws sy'n cael ei gyflwyno drosodd a throdd

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Ceisiwch y canlynol gyda'r dysgwr.

- Cyflwyno stimwlws gweledol o ddau safle gwahanol am yn ail.
- Cyflwyno un sŵn ar batrwm curiad rheolaidd.
- Gosod brwsh dirgrynol, tylinydd ac ati ar ddwy ran wahanol o gorff y dysgwr am yn ail.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Ar ôl cyflwyno'r stimwli am yn ail fwy nag unwaith, edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn troi ei lygaid, ei ben neu ran o'i gorff at y safle nesaf cyn i'r stimwlws ymddangos.

Pan gaiff sŵn, dirgryniad neu olau ac ati ei gyflwyno ar batrwm curiad, edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn rhagweld ei fod am gael ei gyflwyno eto, e.e. efallai y bydd ei gorff yn tynhau neu ei lygaid yn agor yn fwy llydan.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Os na fydd ymateb, ceisiwch eitemau pefriog fel opteg ffibrau, goleuadau neu wialenni fflworoleuol o dan olau uwchfioled. Chwythwch ar bob ochr i wyneb y dysgwr neu chwythwch ar wahanol rannau o'r corff. Os oes nam ar olwg y dysgwr a'i fod yn araf i ragweld, ewch yn ôl i focs 12 y Map llwybrau (Ymateb yn wahanol i wahanol stimwli) a phwysleisio cyffyrddiad.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Ar ôl cyflwyno stimwlws i'r dysgwr yn gyntaf mewn un lleoliad, ac yna mewn un arall, a chyflwyno'r patrwm eto, mae llygaid, pen neu ran o gorff y dysgwr yn symud tuag at y lleoliad nesaf, a hynny cyn i'r stimwlws ymddangos yno.

Enghreifftiau

Canais y gloch y tu ôl i James, yn gyntaf ar y dde ac yna ar y chwith, sawl gwaith ar ôl ei gilydd. Trodd bob tro tuag at yr ochr lle roedd y gloch yn canu. Unwaith, ar ôl ei chanu ar y dde, arhosais am foment a throdd i'r chwith yn barod i'w chlywed yr ochr honno. Rhoesom gynnig ar rywbeth tebyg drwy chwarae bi-po gydag adar a fyddai'n ymddangos am yn ail o ddau dwll. Unwaith eto, ar ôl aros am foment, trodd ei lygaid at y twll nesaf lle dylai'r aderyn ymddangos.

Gall Martha ragweld o ble y bydd golau neu sŵn yn dod nesaf pan gaiff y stimwli eu cyflwyno am yn ail. Pan oeddwn i'n sefyll y tu ôl iddi ar y trampolîn, gan blygu i'r naill ochr yn gyntaf ac yna i'r llall, byddai'n troi i gyfeiriad lle dylwn ymddangos nesaf.

Thema 4: Arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.


Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth gynniig cyfleoedd iddyn nhw barhau i ryngweithio'n gymdeithasol, dilyn yr un patrwm rhyngweithio eto neu roi'r gorau iddi.

Mae pob ymddygiad yn 'arwyddo' rhywbeth i arsylwr. Pan fydd dysgwr yn gweithredu o'i wirfodd (e.e. agor ei lygaid yn llydan wrth gael ei siglo), bydd partner cyfathrebu da yn gweld ystyr yn y peth (e.e. 'mae'n edrych fel pe bai'n mwynhau') ac yn ymateb i hynny – er nad yw'r dysgwr yn gwybod eto, efallai, y bydd yr hyn y mae e'n ei wneud yn effeithio ar ymddygiad person arall. Mae trin dysgwyr fel 'cyfathrebwyr' yn y ffordd hon yn eu hannog i weithredu'n fwy hyderus ac, yn y pen draw, i weithredu gyda'u partner cyfathrebu mewn golwg.

Wrth i'r dysgwyr ddatblygu, felly, byddem yn disgwyl gweld mwy a mwy o fwriad pwrpasol yn eu hymddygiad. Byddem hefyd yn disgwyl i bobl nad ydyn nhw'n eu nabod cystal ei chael yn haws deall a dehongli eu hymddygiad. Disgrifir y datblygiad hwn yn fanylach yn *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau* (gweler 'Y broses gyfathrebu' ar dudalennau 48–53).

Asesu sut mae dysgwyr yn arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall

Drwy gydol y thema hon, ac yn Thema 7 (Bod yn gymdeithasol), mae arferion cymdeithasol yn fframwaith cyson. Bydd ymarferydd yn wynebu'r dysgwr, bydd yn gorfforol agos ato, a dilynir strwythur cymryd tro, boed drwy ddefnyddio'r llais, mynegiant wyneb, edrych, cyffwrdd neu ystumiau. Efallai y bydd ystumiau'n cael eu defnyddio wrth i'r ymarferydd ganu cân neu adrodd rhigwm syml addas gydag ystumiau, a dilynir strwythur cylchol, rheolaidd. Gall pob un o'r elfennau hyn helpu i greu cyd-destun cefnogol iawn wrth asesu ymddygiadau cyfathrebu dysgwyr.



Mae'r strwythur hwn i'w weld ym mocs 7 y Map llwybrau (Gyda chymorth, cymryd tro gydag oedolyn mewn sefyllfa 1:1) lle bydd y partner cyfathrebu yn gadael i'r dysgwr gymryd ei dro, yna yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw weithred wirfoddol ar ran y dysgwr ac, os yw'n briodol, yn gwneud yr un peth eto. Mae'n bosibl iawn y bydd y dysgwr yn arwyddo ei fod am roi'r gorau i ryngweithio â'r person neu â stimwlws. Mae bocs 11 y Map llwybrau (Ymateb i rai stimwli mewn ffordd y gellir ei dehongli fel gwrthodiad) a bocs 13 y Map llwybrau (Dod â rhyngweithio ag oedolyn i ben) yn nodi ymddygiadau gwahanol y gallai partneriaid eu dehongli yn y ffordd hon.

Mae gwneud fideo o weithgareddau asesu yn gallu helpu er mwyn gallu gweld ymddygiadau llai amlwg. Mae pobl sy'n nabod y dysgwr yn dda yn debygol o allu adnabod rhai o'r ffyrdd y mae'n ymateb i brofiadau neu stimwli penodol, mewn cyd-destunau arbennig. Bydd gwyllo'r fideo gydag aelodau o'r teulu, aelodau o dîm y dosbarth a gweithwyr iechyd proffesiynol (yn enwedig eich therapydd lleferydd ac iaith), felly, yn gyfle i glywed safbwyntiau gwahanol. Gallwch fynd ati wedyn i drafod yr hyn a welwch er mwyn i bawb ddod i ddealltwriaeth well.

Erbyn bocs 22 y Map llwybrau (Ymateb mewn ffyrdd y gellir eu dehongli i olygu 'mwy'), bydd dysgwr sydd wedi cael digon o brofiad o arferion cymdeithasol yn gallu rhagweld, pan roddir eiliad neu ddwy iddo, beth sy'n dod nesaf, ac felly bydd yn haws i'r partner cyfathrebu ddehongli'r hyn a wnaiff (e.e. symud i fyny ac i lawr) fel gwahoddiad i wneud yr un peth eto.

Ym mocs olaf y thema hon, bocs 28 y Map llwybrau (Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol), mae'r dysgwr yn cyfathrebu mewn ffordd fwriadol ond 'cyntefig' (gweler 'Tabl 2: Lefelau datblygiad cyfathrebu' ar dudalen 49 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau*). Mae'n hawdd dehongli ei ymddygiad o fewn y cyd-destun.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Beth yw rôl y partner cyfathrebu? I ba raddau y mae'r rhyngweithio wedi'i strwythuro i'r dysgwr allu ymuno?
- Ydy'r dysgwr yn dangos ymatebion gwahanol i wahanol stimwli? Oes modd i bobl sy'n nabod y dysgwr ddweud ar sail ei ymateb pa weithgareddau y mae'n eu mwynhau, neu y mae eisiau mwy ohonyn nhw, o gymharu â'r rheini nad yw'n eu hoffi neu y mae'n eu gwrthod?
- Oes gan y dysgwr strategaethau, ymddygiadau neu weithred y mae'n ei defnyddio'n gyson mewn ffordd bwrpasol i gyflawni deilliannau a gynlluniwyd, megis cael mwy o rywbeth?

7 Gyda chymorth, cymryd tro gydag oedolyn mewn sefyllfa 1:1

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cefnogwch y dysgwr mewn gêm siglo'n ôl ac ymlaen, e.e. 'Cwch bach yn rhwyfo'.

Cefnogwch y dysgwr i ddychwelyd/gwthio'r bêl at oedolyn, gan ei baratoi i wneud drwy ddweud "Ar dy farciau, barod, cer!"

Wrth sgwrsio, cymerwch eich tro – siaradwch yn fywiog, arhoswch am 'ateb' bob hyn a hyn.

Cyflwynwch/ailgyflwynwch degan neu wrthrych (gweledol/cerddorol/dirgrynol), gan gymryd eich tro a helpu'r dysgwr pan mai ei dro ef yw hi.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am newidiadau yn ymddygiad y dysgwr, e.e. edrych, gwenu ar yr oedolyn, defnyddio'r llais, yn enwedig pan fydd yna oedi am eiliad.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Defnyddiwch aelod staff i gefnogi'r dysgwr i gymryd ei dro, e.e. dal y dysgwr, gweithio law dros law, cydweithio, ac ati. Caniatewch amser i'r dysgwr ymateb.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ymateb ar ôl i'r oedolyn:

- ddarparu cyfle clir, drwy ystum hynod amlwg hyd yn oed, i gymryd ei dro
- ysgogi'r dysgwr i ymateb a chymryd ei dro.

Gellir dehongli amseru ymateb y dysgwr fel 'ei dro ef'.

Yn ogystal, mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n ofalus i gefnogi gofynion y dysgwr.

Mae'r partner cyfathrebu yn gorfforol agos ac yn bresennol drwy gydol y sesiwn.

Enghreifftiau

Mae Manon yn mwynhau cael ei siglo ym mreichiau rhywun cyfarwydd. Mae'r cynorthwydd addysgu yn ei siglo am ddeg eiliad, yna'n oedi, gan aros i Manon chwerthin. Pan fydd hi'n chwerthin, mae'r cynorthwydd addysgu yn dweud "Mwy?", yna'n ei siglo eto. Maen nhw'n gwneud hyn eto fel gêm cymryd tro.

Pan fyddaf yn strymio'r gitâr ac yna'n oedi, bydd Harry yn aml yn defnyddio'i lais yn ystod y tawelwch.

11

Ymateb i rai stimwli mewn ffordd y gellir ei dehongli fel gwrthodiad

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cyflwynwch ystod o stimwli (y rheini nad yw'r dysgwr mor hoff ohonyn nhw). Edrychwch am arwyddion megis troi i ffwrdd, osgoi edrych i lygad yr oedolyn, newid ym mynegiant yr wyneb, symud breichiau neu goesau. Er mwyn asesu'r ymddygiad hwn, rhaid i'r dysgwr fod wedi dangos ymateb cadarnhaol i rai stimwli.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn mynegi dymuniad i roi'r gorau i'r weithgaredd neu'r rhyngweithio, e.e. drwy droi i ffwrdd, tynnu wyneb neu wthio.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Mae'r ymateb hwn o 'wrthod' yn negyddol ac felly'n anodd i'w addysgu. I ddechrau, efallai na fydd yn amlwg o gwbl. Dylech chi atgyfnerthu neu 'lywio' yr ymddygiad â phob cyfle, gan ymateb yn gyson i gadarnhau'r ystyr.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Er ei fod yn dangos diddordeb neu bleser mewn ymateb i stimwli eraill, mae ymddygiad presennol y dysgwr yn wahanol iawn.

Mae nawr yn anwybyddu neu'n amlwg yn osgoi'r stimwlws, ac efallai yn dangos arwyddion o anghysur.

Mae'r dysgwr yn dibynnu ar allu partner cyfathrebu cyfarwydd i adnabod yr ymatebion hyn.

Ymatebion i ddigwyddiadau a stimwli yw ymddygiadau'r dysgwr yn hytrach nag ymddygiadau y bwriedir iddyn nhw effeithio ar eraill.

Enghreifftiau

Yn ystod yr Affective Communication Assessment, rhoddir blas bach o hufen salad i Zayan. Mae ei gorff yn tynhau, mae'n crychu ei wefusau ac yn gostwng ei ben. Wrth geisio rhoi blas bach arall iddo, mae'n troi i ffwrdd, ei wefusau yn dal i fod wedi'u crychu. Pan roddir blas bach o bâst siocled iddo, ar y llaw arall, mae Zayan wedi ymlacio. Mae'n gwneud symudiadau sugno gyda'i dafod ac yn aros yn ei safle yn wynebu'r oedolyn.

Mae Nia yn derbyn y rhan fwyaf o fwyd a gynigir ar lwy, ond yn cau ei cheg yn glep pan ddaw rhywun â brwsh dannedd ati.

13 Dod â rhyngweithio ag oedolyn i ben

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Edrychwch am hyn mewn gweithgareddau o bob math. Ehangwch y gweithgareddau cymryd tro a 'modelwch' yr ymddygiad hwn.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Nodwch sut mae'r dysgwr yn 'arwyddo' diwedd sesiwn rhyngweithio, e.e. drwy droi i ffwrdd neu osgoi edrych i lygad yr oedolyn.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Ymatebwch yn gyson a pharchwch yr arwydd hwn neu efallai y bydd y dysgwr yn troi at fesurau mwy eithafol.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Yn ystod sesiwn neu rhyngweithio cyfarwydd, daw'n amlwg bod y dysgwr yn dod â'i ymwneud â'r person arall i ben.

Efallai y bydd y dysgwr yn parhau i ymwneud â gwrthrych neu weithgaredd, ond yn tynnu'n ôl o'r rhyngweithio.

Enghreifftiau

Mae Jill yn ymddangos yn hapus yn gwrando ar ei hoff gerddoriaeth. Am yr ychydig funudau cyntaf, mae'n gwenu tra bo rhywun yn anwesu ei llaw i guriad y gerddoriaeth. Yna mae'n tynnu ei llaw i ffwrdd ac yn cau ei llygaid.

Mae Leo yn cau ei llygaid os yw wedi cael digon ar sgwrs oedolyn. Mae'n codi ei ddwylo at ei wyneb a'u cadw yno fel pe bai'n blocio'r oedolyn.

22

Ymateb mewn ffordd y gellir eu dehongli i olygu 'mwy'

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Dechreuwch weithgaredd bleserus gyda'r dysgwr. Torrwch ar draws y weithgaredd ar adeg hollbwysig, ac arhoswch am ymateb y dysgwr. Er enghraifft:

- wrth iddo fwyta, oedwch, gan ddal y bwyd o flaen ei geg
- wrth ganu, oedwch ar ganol cân ystumiau
- oedwch wrth daro bwrdd synhwyrdd.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn defnyddio'i lais/symud/newid fynegiant ei wyneb, er enghraifft:

- agor ei lygaid yn llydan, syllu ar wrthrych
- symud ei freichiau
- agor ei geg neu ddefnyddio'i lais
- ymestyn tuag at wrthrych mewn ffordd y gellir ei dehongli i olygu ei fod yn gofyn am fwy.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Gan ddefnyddio stimwli y mae'r dysgwr yn ymateb yn gyson iddyn nhw, datblygwch batrwm. Oedwch o fewn y patrwm a dehonglwch ymateb nesaf y dysgwr fel cais am fwy. Er enghraifft, wrth gynnig bwyd ar lwy, oedwch ychydig cyn rhoi'r llwy yn ei geg a dehonglwch ymateb nesaf y dysgwr (e.e. agor ei wefusau) fel 'mwy'. Rhowch fwy o bellter rhwng y llwy a'r geg. Os yw'r dysgwr yn cau ei wefusau, gallai hynny olygu 'dim mwy'.

Oedwch ar ganol gweithgaredd bownsio neu weithgaredd bwrdd synhwyrdd â chân ystumiau. Dehonglwch symudiad corff y dysgwr neu fynegiant ei wyneb fel cais am fwy.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Wrth ryngweithio â phartner, mae'r dysgwr yn ymateb mewn ffordd y gellir ei dehongli i olygu 'Rwy'n hoffi'r weithred neu'r stimwlws yna, ac yn hapus i gael mwy ohono'.

Mae'r ymateb yn digwydd pan fydd gweithgaredd yn cael ei stopio am eiliad (ei 'dro' ef).

Efallai na fydd y dysgwr yn mynd ati'n fwriadol i effeithio ar yr hyn y mae'r partner cyfathrebu yn ei wneud, ond gall partner cyfathrebu sensitif ddeall/dehongli ei ymddygiad.

Mae'r ymatebion sy'n gofyn am 'fwy' yn debygol o ddibynnu ar y math o stimwlws (e.e. arogl, gweithred, blas, sŵn, gwead), ond nid ydyn nhw'n dibynnu ar gyd-destun cyfarwydd.

Enghreifftiau

Mae Sophie yn gweithio gyda'r ffisiotherapydd. Mae hi'n mwynhau ymestyn at fysellwrdd electronig i'w daro. Pan fydd y therapydd yn troi i ffwrdd i ysgrifennu nodyn iddi hi ei hun, mae Sophie yn chwifio ei dwylo tuag at y bysellwrdd, gan wgu.

Os bydd Isaac yn rhoi cwtsh i un o'r staff, a bod hwnnw'n tynnu i ffwrdd, bydd yn ymestyn ato ac yn ei dynnu'n ôl am gwtsh arall. Pan fydd ei fyrbryd wedi gorffen, bydd yn bwrw'r bwrdd nes iddo gael mwy.

28

Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Arsylwch ymatebion y dysgwr i weithgaredd neu fwyd ac ati nad yw mor hoff ohonyn nhw. Nodwch unrhyw weithred sydd efallai yn dynodi 'dim mwy'. Dylai'r rhain fod yn wahanol i unrhyw weithred ganddo sy'n dynodi 'mwy'.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am ymateb sydd efallai yn dynodi 'dim mwy', e.e. cau ei lygaid, troi i ffwrdd, cau ei geg. Atgyfnerthwch hyn ac adeiladu arno, gan ymateb yn gyson bob tro.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Nodwch yr ymateb lleiaf i weithgaredd sy'n dynodi bod y dysgwr am ddod â hi i ben, neu'r newid lleiaf mewn mynegiant. Atgyfnerthwch yr ymddygiad hwn a'i lywio drwy ddweud neu arwyddo 'wedi gorffen/dim mwy' a dod â'r weithgaredd i ben yn amlwg iawn.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Wrth ryngweithio â phartner, mae'r dysgwr yn arddangos dau fath gwahanol o ymateb:

- ymatebion y gellir eu dehongli i olygu 'Rwy'n hoffi hynny ac yn hapus i gael mwy ohono'
- ymatebion eraill y gellir eu deall i olygu 'Dydw i ddim yn hoffi hynny' neu 'Dydw i ddim eisiau mwy o hynny'.

Defnyddir yr ymatebion yn weddol gyson mewn gwahanol gyd-destunau, ac maen nhw'n aml yn digwydd pan fydd yna oedi yn y rhyngweithio (tro'r dysgwr).

Mae partneriaid cyfathrebu anghyfarwydd yn deall yr hyn y mae'r dysgwr am ei wneud.

Enghreifftiau

Rydym yn gwybod bod Mira eisiau 'mwy' am ei bod yn parhau i edrych i'n llygaid, mae'n gwenu ac mae'n ymestyn allan. Rydym yn gwybod ei bod yn golygu 'dim mwy' pan fydd yn troi i ffwrdd, yn gwrthod edrych i'n llygaid neu'n ein gwthio i ffwrdd.

Fel rheol, mae'n amlwg o fynegiant wyneb Jake ei fod eisiau 'mwy', a bydd weithiau yn defnyddio'i lais ar yr un pryd. Fodd bynnag, pan fydd wedi cael digon, bydd yn cau ei lygaid tra bydd rhywun yn siarad, ac os na fydd y person yn stopio bydd yn troi ei wyneb i ffwrdd.


Thema 5: Gwybod lle mae gwrthrych

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth iddyn nhw ddod ar draws stimwli sy'n symud neu'n diflannu o'u golwg.

Pan fydd gwrthrych yn symud ar hyd llwybr disgwylidig, caiff dysgwyr y cyfle i sylwi bod:

- natur y gwrthrych yn parhau'r un fath, lle bynnag y mae
- modd rhagweld ble y mae weithiau
- natur y gwrthrych yn parhau'r un fath, a'i fod 'yn rhywle', hyd yn oed pan nad oes modd ei weld yn llawn, os o gwbl.



Asesu gallu dysgwyr i wybod lle mae gwrthrych

Mae yna gysylltiad agos rhwng y thema hon a Thema 8 (Newid ffocws). Fodd bynnag, yn y thema hon, cyfeirir y dysgwr bob amser at un stimwlws wrth iddo symud, wrth iddo gael ei guddio'n rhannol neu wrth iddo ddiflannu.

I ddechrau (bocs 10 y Map llwybrau (Am gyfnod byr, dilyn stimwlws sy'n symud)), mae'n bosibl y bydd angen i'r gwrthrych fod yn weledol ddeniadol ac i'r cefndir fod yn ddi-liw ac anniddorol, ond bydd angen profiad ar ddysgwyr hefyd o ddilyn gwrthrychau mwy cyffredin, ac mewn amgylchiadau lle nad yw'r gwrthgyferbyniad â'r cefndir mor amlwg. Lle bo'n briodol, dylid gofyn am gyngor yr athro arbenigol yn achos dysgwyr sydd â nam ar eu golwg.

Dylid symud gwrthrychau mewn ffordd mor arferol â phosibl ac yn araf. Gellir 'paratoi' dysgwyr ar gyfer bocs 20 y Map llwybrau (Edrych, am gyfnod byr, ar ôl i wrthrych ddiflannu o'i olwg) os, wrth newid gwrthrych ac ar ddiwedd sesiwn, caiff y gwrthrych ei symud yn dwt i gynhwysydd sy'n weladwy i'r dysgwr.

Wrth addysgu am 'Sefydlogrwydd gwrthrychau' (carreg filltir 34 y Map llwybrau (Sefydlogrwydd gwrthrychau)), mae angen i ddysgwyr gael profiad o wrthrychau sydd wedi'u gorchuddio'n rhannol neu'n llawn â defnyddiau lled-dryloyw. Dylen nhw gael cyfleoedd hefyd i ddysgu drwy gyffwrdd, e.e. teimlo siâp gwrthrychau sydd wedi'u gorchuddio â gwahanol ddefnyddiau.

Am ragor o wybodaeth ar 'sefydlogrwydd gwrthrychau' gweler tudalen 35 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau* a thudalennau 37–42 yr un ddogfen ('Rhwystrau i ddysgu') yr un ddogfen ynghylch effaith nam ar y golwg. Os oes gan y dysgwr nam sylweddol ar ei olwg, dylid nodi na fydd sefydlogrwydd gwrthrychau efallai yn ymddangos tan fod y dysgwr yn cyflawni bocsys yn nes i lawr y Map llwybrau.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Ydy'r dysgwr yn symud ei lygaid yn yr un cyfeiriad â'r stimwlws sy'n symud?
- Ydy e'n syllu ar y lle mae'r stimwlws yn diflannu?
- Ydy'r dysgwr yn chwilio am y stimwlws pan nad yw'n weladwy mwyach?

10 Am gyfnod byr, dilyn stimwlws sy'n symud

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Ceisiwch ddefnyddio sŵn i dynnu sylw, yna defnyddiwch stimwlws gweledol, e.e. gwrthrychau llachar neu fflworoleuol. Symudwch y stimwlws i fyny, i lawr, i'r chwith ac i'r dde.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn dilyn stimwlws gyda'i lygaid.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Ceisiwch ddefnyddio gwrthrychau sydd â nodweddion gweledol gwahanol, e.e. gwahanol liwiau neu rai sy'n fwy llachar na'i gilydd.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae llygaid y dysgwr yn canolbwyntio ar stimwlws.

Pan fydd y stimwlws yn symud, mae llygaid y dysgwr yn symud i'r un cyfeiriad.

Gall ddilyn stimwlws mewn mwy nag un cyfeiriad.

Efallai na fydd y dysgwr yn 'dilyn' y stimwlws am gyfnod hir ac efallai y bydd yn rhywbeth ysbeidiol ac anghyflawn (wrth symud gwrthrych o un safle i safle arall). Mae'r gallu i dracio gwrthrych gyda mwy o gysondeb yn datblygu yn sgil hyn.

Enghreifftiau

Mae Efan yn symud ei ben yn herciog i ddilyn y bag aur neu'r cerdyn lliw sy'n dangos diwrnod yr wythnos wrth iddyn nhw gael eu symud o'r chwith i'r dde ac o'r dde i'r chwith.

Wrth i Ella gael ei gwthio o amgylch yr ysgol yn ei chadair olwyn, edrychodd i fyny ymhellach ac ymhellach i'r chwith wrth i ni basio'r ffenestri lle mae'r golau naturiol yn dod i mewn.

20

Edrych, am gyfnod byr, ar ôl i wrthrych ddiflannu o'i olwg

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Pan fydd y dysgwr yn canolbwyntio ar wrthrych deniadol, symudwch y gwrthrych yn araf ac yn fwriadol o olwg y dysgwr a gwylwch am ymateb.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch a yw'r dysgwr yn edrych i gyfeiriad y gwrthrych ar ôl iddo ddiflannu.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Defnyddiwch amrywiol sefyllfaoedd neu leoliadau i annog y dysgwr i edrych i gyfeiriad gwrthrych sydd wedi diflannu o'i olwg.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae llygaid y dysgwr yn canolbwyntio ar stimwlws. Pan fydd y stimwlws yn symud, mae llygaid y dysgwr yn symud i'r un cyfeiriad.

Mae'n syllu ar y man lle diflannodd y gwrthrych o'i olwg, ac yn parhau i edrych am gyfnod byr iawn ar ôl i'r gwrthrych ddiflannu.

Enghreifftiau

Pan ddywedodd tad Connor hwyl fawr a cherdded allan o'r ystafell ddosbarth, dilynodd Connor ef â'i lygaid gan syllu am foment ar y drws ar ôl iddo gau.

Roedd Emma yn chwarae â chi tegan bach o sach stori pan dynnodd y cynorthwydd addysgu ef o'i hambwrdd a'i roi'n ôl yn y sach (a oedd ar y llawr). Cadwodd ei llygad ar y tegan wrth iddo gael ei symud ac edrychodd am ychydig ar y sach ar ôl iddo gael ei roi i mewn.

34 Sefydlogrwydd gwrthrychau

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Tynnwch sylw'r dysgwr â gwrthrych disglair neu swllyd, neu eitem â ffwr. Yna, gallwch chi naill ai symud yr eitem o'r golwg, ei gadw'n dawel neu ei symud ychydig y tu hwnt i gyrraedd y dysgwr. Ydy'r dysgwr yn 'chwilio' amdano?

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn:

- edrych, am gyfnod byr, i'r man lle diflannodd y gwrthrych
- llonyddu, yn troi ei ben neu'n gwneud ystum gwahanol â'i wyneb pan fydd y sŵn yn stopio
- chwilio, am gyfnod byr, drwy deimlo ar yr hambwrdd am eitem a symudwyd o'i afael
- chwilio'n fwy egniol neu am gyfnod hirach.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Os nad oes ymateb pan symudir y gwrthrych:

- ceisiwch orchuddio'r gwrthrych yn rhannol neu defnyddiwch liain tryloyw
- defnyddiwch wrthrych sy'n symud o dan liain.

Sicrhewch fod y dysgwr yn canolbwyntio ar y man lle diflannodd y gwrthrych (e.e. gwnewch sŵn gydag ef o fymryn y tu allan i gwmpas golwg y dysgwr), wedyn dewch â'r gwrthrych yn ôl i olwg y dysgwr am gyfnod byr o'r cyfeiriad hwn.

Anogwch y dysgwr i ymestyn am y gwrthrych i'r cyfeiriad y cafodd ei symud i ffwrdd.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn canolbwyntio ar stimwlws.

Os yw'r stimwlws yn symud, mae llygaid y dysgwr yn ei ddilyn i'r man lle mae'n diflannu o'i olwg, ac mae'n parhau i edrych i'r cyfeiriad hwnnw wedyn.

Os nad yw'r stimwlws yn symud, ond yn cael ei orchuddio, mae'r dysgwr yn parhau i syllu ar y man lle y gwelodd y gwrthrych ddiwethaf cyn ei guddio, neu mae ei lygaid yn dychwelyd i'r man hwnnw.

Mae'n 'chwilio' am y stimwlws drwy edrych, cyffwrdd neu wrando'n fwy astud i gyfeiriad y gwrthrych.

Enghreifftiau

Pan fydd oedolyn yn sefyll yn union o'i blaen ac yn cuddio hoff degan y tu ôl i'w gefn, bydd Abi yn ei dynnu er mwyn ei droi neu'n ymestyn ei braich tuag at lle mae'n cuddio'r tegan.

Aeth Rhys ati'n egniol i chwilio am ei botel ddiod, gan dynnu'r clawr oddi ar focs ar ôl gwylio rhywun yn ei roi y tu mewn iddo. Tynnodd sgrîn i'r neilltu gan fod ei gar tegan wedi'i guddio y tu ôl iddi.

Thema 6: Gweithredu o fewn amgylchedd y dysgwr

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth iddyn nhw ryngweithio ag amgylcheddau a gwrthrychau o'u mewn.


Yn Thema 1 (Ymateb i stimwli), roedd yr asesu yn canolbwyntio'n benodol iawn ar ymatebion dysgwr i stimwli. Roedd y rhain wedi'u dewis yn ofalus a'u cyflwyno i'r dysgwr. Mae'r thema hon, fodd bynnag, yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn dechrau cysylltu â'r hyn sydd o'u hamgylch ac, yn gynyddol, drwy'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Mae yna gysylltiad agos rhwng y thema hon a Thema 9 (Cysylltu gweithred â chanlyniad) ac ymhlyg yn y gallu i gyrraedd y camau uchaf yma mae ymwybyddiaeth gynyddol o achos ac effaith.

Gan mai'r amgylchedd ffisegol yw'r prif ffocws (yn hytrach na phobl), mae bocsys Map llwybrau y thema hon ar ochr dde'r Map llwybrau. Serch hynny, mae gan yr ymarferydd rôl hollbwysig o ran darparu cymorth priodol a gwneud addasiadau.

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer y thema hon, mae'n bwysig arsylwi dysgwyr yn rhyngweithio mewn ystod eang o amgylcheddau, o dan do ac yn yr awyr agored.

Asesu dysgwyr mewn perthynas ag amgylcheddau a defnyddiau

O'i addasu i'r eithaf, gellid dweud bod amgylchedd yn un 'prosthetig' (h.y. wedi'i drefnu'n gyfan gwbl i gefnogi'r dysgwr, ac felly yn wahanol iawn i'r hyn a welir yn y byd go iawn). Mae amgylcheddau, arwynebau, defnyddiau a gwrthrychau 'ymatebol' yn rhai a gynlluniwyd i gael effaith fawr o ychydig iawn o ymdrech. Mae'r ymatebion a geir mewn amgylcheddau 'bob dydd' yn rhai sydd heb eu 'chwyddo' yn artiffisial yn y ffordd hon. Mae'n bwysig ystyried y ffactorau hyn wrth asesu dysgwyr mewn perthynas â'r thema hon.



Mae'n hanfodol sicrhau bod dysgwyr sy'n gweithio ar y bocsys yn y thema hon yn cael y cyfle gorau posibl i gysylltu unrhyw weithred ganddyn nhw â chanlyniad penodol. Efallai y bydd angen ystyried hyn yn benodol mewn amgylcheddau amlsynhwyrdd (e.e. ystafelloedd gwyn neu lorïau synhwyrdd). Os oes dysgwyr eraill yn bresennol, bydd hyn yn ddryslyd, ac os ydyn nhw hefyd wrthi'n creu effeithiau, mae'n annhebygol y bydd yna ddysgu yn digwydd.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- I ba raddau y mae'r amgylchedd wedi'i addasu neu ei drefnu er mwyn lleihau'r gofynion ar y dysgwr?
- I ba raddau y mae gweithredoedd y dysgwr yn dibynnu ar berson arall (e.e. yr athro, y cynorthwydd addysgu neu aelod o'r teulu)?
- I ba raddau y mae tystiolaeth o fwriad a phwrpas yn rhyngweithio'r dysgwr?

16

Gyda chymorth, archwilio'r amgylchedd sy'n union o'i amgylch

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Gosodwch law'r dysgwr ar wrthrych diddorol a helpwch ef i'w deimlo, yna oedwch.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch a yw'r dysgwr yn:

- symud ei fysedd neu ei ddwylo
- aroglu neu'n ceisio llyfu gwrthrychau neu eu teimlo â'i geg
- mynd ati i astudio gwahanol wrthrychau yn eu tro.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Gosodwch law neu droed y dysgwr mewn dŵr cynnes; corddwch y dŵr.

Arllwyswch dywod dros law neu droed y dysgwr.

Claddwch droed y dysgwr mewn tywod, ewyn eillio, jeli neu laid.

Defnyddiwch bwl peli, bagiau teimlo, ac ati.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn arddangos ymateb os yw:

- yr amgylchedd wedi'i drefnu'n ofalus i gefnogi ei ofynion
- oedolyn yn gorfforol agos ac yn bresennol drwy gydol y sesiwn
- yr oedolyn wedi ysgogi'r rhyngweithio drwy (o leiaf):
 - ddod â'r defnydd at y dysgwr
 - symud llaw, troed ac ati y dysgwr at y defnydd.

Engheifftiau

Chwarddodd Kayleigh wrth i dywod gael ei ysgeintio dros ei thraed; yna symudodd ei thraed yn y tywod.

Gyda chymorth, teimlodd Peter fwa pluog yn ystod ein stori a daliodd ei afael ynddo wedyn.

21

Mewn amgylchedd ymatebol, ailgyflawni gweithred sy'n creu adborth synhwyrdd

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Gosodwch y dysgwr ar arwyneb ymatebol diddorol a nodwch ei ymateb.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn ceisio creu gweithred neu effaith.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Ysgogwch y dysgwr yn gorfforol neu ar lafar i archwilio'r arwyneb, yna lleihewch faint rydych chi'n ei ysgogi. Tynnwch sylw'r dysgwr at yr effeithiau a grewyd.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn gwneud i rywbeth ddigwydd fwy nag unwaith cyn belled â bod:

- yr amgylchedd wedi'i drefnu'n ofalus iddo wneud hynny
- y defnyddiau a ddefnyddir yn cael effaith(effeithiau) synhwyrdd cryf (ac wedi'u cynllunio i wneud hynny).

Mae'r dysgwr yn dangos diddordeb clir yn yr effaith(effeithiau).

Nid oes angen i'r oedolyn fod yn bresennol yn barhaus ac nid yw'n darparu cymorth corfforol er mwyn hwyluso'r gweithredu.

Enghreifftiau

Bydd Owen yn mynd ati'n egniol i frwr'r bwrdd synhwyrdd â'i holl nerth er mwyn creu amrywiaeth o synau. Pan gaiff ei roi ar flanced ofod swllyd, mae'n ymdroelli ac yn cicio'n frwdfrydig.

Bydd Sarah yn archwilio defnyddiau synhwyrdd a osodir yn agos iawn ati, megis mwclis sy'n disgleirio o dan oleuadau. Bydd hefyd yn defnyddio ei llaw i wneud synau ar y clychau ac yn tynnu opteg ffibrau yn nes ati.

24

Mewn amgylchedd arferol ailgyflawni gweithred sy'n creu adborth synhwyaidd

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Ceisiwch weithgareddau chwarae arferol o bob math (e.e. tywod, dŵr) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr ryngweithio fwy nag unwaith er mwyn creu effaith.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn mynd ati'n bwrpasol i wneud i bethau ddigwydd mewn amgylchedd arferol.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Defnyddiwch wrthrychau neu weithgareddau amrywiol ac ysgogwch y dysgwr i'w harchwilio.

Lleihewch yr ysgogi dros amser.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn gwneud i rywbeth ddigwydd fwy nag unwaith.

Nid yw'r defnyddiau a ddefnyddir wedi'u cynllunio'n benodol i greu effaith(effeithiau) synhwyaidd cryf.

Mae'r dysgwr yn dangos diddordeb clir yn yr effaith(effeithiau).

Nid oes angen i'r oedolyn fod yn bresennol yn barhaus ac nid yw'n darparu cymorth corfforol er mwyn hwyluso'r gweithredu.

Enghreifftiau

Bydd Lily yn rhoi ei dwylo yn y badell ddŵr ac yn sblasio; mae hi hefyd yn mwynhau gwneud hyn yn y pwll. Cododd Gareth llyn o fwclis o hambwrdd o ddefnyddiau. Edrychodd yn ofalus arnyn nhw a'u symud o gwmpas o flaen ei lygaid.

27

Cychwyn archwilio'r amgylchedd sy'n union o'i amgylch yn fwriadol

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Arsylwch ymateb y dysgwr i amgylchedd llai cyfarwydd, pan fydd oedolyn cyfarwydd gerllaw.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am unrhyw fath o archwilio, e.e. edrych o gwmpas, estyn ei freichiau, neu symudiad corfforol os yw ar y llawr.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Darparwch brofiadau gweledol/cyffwrdd diddorol mewn ffordd a reolir drwy gyflwyno stimwli newydd yn rheolaidd a thynnu sylw atyn nhw.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ymwneud â gwrthrych neu ddefnyddiau sydd gerllaw, neu â'r amgylchedd sy'n union o'i amgylch.

Mae'r dysgwr yn dangos diddordeb a ffocws clir.

Mae gweithredoedd y dysgwr yn ymwneud â'r ffocws hwn.

Nid yw'r amgylchedd a'r defnyddiau wedi'u cynllunio'n benodol i greu effaith(ffeithiau) synhwyrdd cryf, ac efallai y byddan nhw'n rhai nad yw'r dysgwr yn dod ar eu traws yn rheolaidd.

Er y bydd yr oedolyn yn bresennol efallai, nid yw'r dysgwr yn dibynnu ar yr oedolyn i weithredu.

Enghreifftiau

Pan oeddem mewn ystafell ddosbarth wahanol, rholiodd Zoe ar y llawr er mwyn symud yn nes at y tŷ dol.

Os bydd Nicholas yn clywed bod gwrthrych wedi'i roi ar hambwrdd ei gadair olwyn, aiff ati yn gyntaf i chwilio amdano gyda'i ddwylo ac yna, os yw'n rhywbeth y mae'n ei hoffi neu ei eisiau, bydd yn treulio amser yn ei archwilio.

Thema 7: Bod yn gymdeithasol

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn arferion cymdeithasol gyda pherson arall.


Mae arferion cymdeithasol, fel y'u disgrifir yn Thema 4 (Arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall) yn gyfryngau dysgu hyblyg iawn. Efallai mai eu hunig nod yw rhannu profiad â pherson arall (fel yn achos sesiwn 'Rhyngweithio Dwys') ond gellir eu defnyddio hefyd i asesu ymddygiadau penodol, a gellir ymgorffori gwrthrychau a digwyddiadau iddyn nhw i raddau amrywiol. Fel cyfleoedd asesu ac addysgu, mae'n hawdd eu haddasu a gallan nhw adlewyrchu cyd-destunau o rannau amrywiol o'r cwricwlwm.

Asesu gallu dysgwyr i 'fod yn gymdeithasol'

Mae'n bwysig iawn bod yr arferion a ddilynir yn gyson fel bod y dysgwyr a'u partneriaid cyfathrebu yn dod i wybod beth i'w ddisgwyl oddi wrth ei gilydd ac o'r amgylchedd. Dylid dilyn yr arferion yn aml (e.e. bob dydd) ac, i ddechrau o leiaf, dylid dilyn strwythur o gymryd 'tro', gan wneud yr un peth sawl gwaith.

Wrth i'r dysgwr ymglyfarwyddo â'r strwythur hwn, gall y partner cyfathrebu ddefnyddio ystumiau amlwg a dweud pethau amlwg er mwyn helpu'r dysgwr i ragweld prif gamau'r sesiwn. Mae'r enghraifft gyntaf a nodir isod ar gyfer bocsys 17 y Map llwybrau (Rhagweld yng nghyd-destun arferion cymdeithasol cyfarwydd) yn egluro sut caiff gwrthrych a digwyddiad eu defnyddio i annog dysgwr i ragweld wrth ddilyn arfer cymdeithasol.

Ym mocs 17 y Map llwybrau (Rhagweld yng nghyd-destun arferion cymdeithasol cyfarwydd), fel yn achos bocsys eraill yn rhan uchaf y Map llwybrau, y partner cyfathrebu sy'n rheoli sawl elfen o'r broses, gan leihau'r gofynion ar y dysgwr. Mae hyn yn helpu'r dysgwr i feithrin ymwybyddiaeth o batrwm y cyfnewid cymdeithasol, monitro'r hyn y mae'r partner cyfathrebu yn ei wneud, ac ymateb yn ystod y bylchau pan mai ei 'dro' ef ydyw.



Yn nes ymlaen yn y Map llwybrau, mae 'deinameg' y drefn yn newid wrth i'r dysgwr fod yn fwy rhagweithiol ac i'r partner cyfathrebu ddewis a dethol yn fwy pryd y bydd yn ymateb i weithredoedd y dysgwr. Mae hyn i'w weld yn glir ym mocs 30 y Map llwybrau (Yng nghyd-destun gêm gymdeithasol gyfarwydd, dal ati i ailgyflawni gweithred er mwyn cael gwobr) lle mae'r dysgwr yn sylwi ar fethiant y partner i ymateb o fewn trefn sydd wedi'i hen sefydlu, gan beri iddo ailgyflawni'r weithred er mwyn parhau. Erbyn bocs 33 y Map llwybrau (Cychwyn gêm gymdeithasol), mae'r dysgwr yn cymryd rheolaeth fwy byth drwy gychwyn gêm.

Mae bocs 40 y Map llwybrau (Talu sylw ar y cyd) yn digwydd pan fydd y dysgwr a'r partner cyfathrebu yn rhannu diddordeb mewn gwrthrych neu ddigwyddiad a phan fydd y naill a'r llall yn deall bod ganddyn nhw ill dau ddiddordeb ynddo. Nid mater o geisio cael gafael ar wrthrych yw hyn ond rhannu pleser neu ddiddordeb yn rhywbeth.

Mae talu sylw ar y cyd yn ymddygiad cymhleth sy'n deillio o brofiad cyson y dysgwr o arferion cymdeithasol (fel ag a ddisgrifir uchod) ac mae'n seiliedig hefyd ar ei allu i dynnu ei sylw oddi ar un gwrthrych neu ddigwyddiad ac ailgyfeirio ei sylw yn ôl i'r gwrthrych neu ddigwyddiad neu i wrthrych neu ddigwyddiad arall (gweler Thema 8: Newid ffocws). Gellir arsylwi'r dysgwyr yn:

- ymateb pan delir sylw ar y cyd – lle, yn ystod sesiwn gymdeithasol, bydd y dysgwr yn gweld ei bartner cyfathrebu yn canolbwyntio ar wrthrych (e.e. tegan neu lyfr), ac yn ymateb drwy ei godi a'i ddangos i'r partner, neu'n edrych arno ac yna'n edrych ar y partner gan wenu
- ysgogi sylw ar y cyd – lle mai'r dysgwr sy'n mynd ati i dynnu sylw'r partner cyfathrebu at wrthrych neu ddigwyddiad, gan sicrhau bod y diddordeb cyffredin yn cael ei gydnabod ganddyn nhw; efallai y bydd yn anoddach i ddysgwyr sydd ag ADDLI i ysgogi sylw ar y cyd yn sgil anabledau corfforol neu ddiffyg rheolaeth echddygol.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- I ba raddau y mae'r partner cyfathrebu yn gorfod strwythuro'r rhyngweithio er mwyn sicrhau cyfraniad y dysgwr?
- Pa mor ddibynnol yw'r dysgwr ar elfennau cyfarwydd y drefn? (Oes rhaid chwarae'r gêm yn union yr un ffordd neu oes modd ei hamrywio)?
- Ydy partneriaid llai cyfarwydd yn gallu tynnu'r dysgwr i gêm gymdeithasol?

17

Rhagweld yng nghyd-destun arferion cymdeithasol cyfarwydd

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

O fewn trefn gyfarwydd (e.e. 'diodydd', hylendid personol, gemau cymdeithasol), oedwch cyn yr uchafbwynt.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am arwyddion o ragweld, e.e. tynhau neu symud y corff cyfan, edrych yn fwy i lygad yr oedolyn, gwenu neu chwerthin.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Gofalwch ddefnyddio trefn gyson mewn sesiynau hylendid personol, wrth roi diodydd, ac ati. Ciwiwch neu gorystumiwch ran benodol o'r drefn er mwyn ei throï'n gêm, e.e. wrth newid y dysgwr, datblygwch gêm yn ymwneud â chodi ei ben-ôl oddi ar fainc. Gallech chi roi ciw iddo wrth i chi gymryd anadl enfawr i mewn wrth i'w ben-ôl gael ei godi, yna oedi'n ddramatig, a gorffen drwy lawer o fownsio.

Ceisiwch gemau cyffredin megis y rhai sy'n seiliedig ar hwiangerddi neu gemau eraill y byddwch chi wedi'u creu.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Wrth i uchafbwynt sesiwn agosáu, gwelir cyffro a diddordeb y dysgwr yn cynyddu'n amlwg.

Mae'r dysgwr yn ddibynnol ar set gul o arferion cyfarwydd ac ar sgiliau partner cyfathrebu sensitif sy'n nabod y dysgwr yn dda, sy'n rhoi cyfleoedd amserol, ac sy'n hwyluso ac yn cydnabod ymatebion y dysgwr.

Engbreiffiau

Oedais cyn cynnig y gegaid olaf o fwyd i Katie, gan ddefnyddio ystum fawr a dweud 'Dyma fe'n dod!'. Codais y llwy o'r plât, gan stopio'r llwy ychydig cyn cyrraedd ei cheg. Symudodd Katie ei chorff ychydig yn fwy, ac mewn ymateb cynigiais y llwyaid olaf iddi.

Mae Nathan yn agor ei lygaid a'i geg led y pen ac yn gwenu pan symudaf fy mreichiau tuag ato mewn ystum amlwg cyn ei ogleisio.

30

Yng nghyd-destun gêm gymdeithasol gyfarwydd, dal ati i ailgyflawni gweithred er mwyn cael gwobr

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Ceisiwch oedi yn ystod trefn sydd wedi'i sefydlu. Pan fydd y dysgwr yn arwyddo ei fod eisiau 'mwy' (fel yn achos bocs 22 y Map llwybrau (Ymateb mewn ffyrdd y gellir eu dehongli i olygu 'mwy')), parhewch i oedi cyn ymateb.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn ailrwyddo ei fod eisiau mwy, er gwaethaf oedi.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Defnyddiwch drefn sydd wedi'i sefydlu mewn gêm gymdeithasol, oedwch, ac yna arhoswch i'r dysgwr weithredu eto. Oedwch am gyfnod hirach, gan annog y dysgwr i ddyfalbarhau.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chymau eraill

Wrth i oedolyn oedi mewn gêm gymdeithasol, mae'r dysgwr yn dangos i'r partner cyfathrebu yr hoffai 'fwy' o'r weithgaredd.

Mae'r dysgwr yn ailgyflawni ei weithred pan nad yw'r partner yn ymateb.

Nid yw'r dysgwr yn ddibynnol ar allu'r partner cyfathrebu i ddehongli ei ymgais i weithredu (mae'r dysgwr yn rhagweithiol).

Dim ond mewn set gul o gemau neu arferion cymdeithasol y mae'r ymateb hwn i'w weld gan y dysgwr.

Enghreifftiau

Oedais ychydig cyn diwedd gêm o 'Gee ceffyl bach' ac yna tynnodd Anil fi ychydig tuag ato, dro ar ôl tro, gan wneud defnydd mawr o'i lais pan barhawyd â'r gêm.

Pan fydd hi ar y siglen, os yw'r siglen yn stopio, bydd Lucy yn symud yn ôl ac ymlaen dro ar ôl tro, yn defnyddio'i llais ac yn edrych i lygaid yr oedolyn hyd nes ei fod yn ymateb drwy ei gwthio eto.

33 Cychwyn gêm gymdeithasol

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Gan adeiladu ar focs 30 y Map llwybrau (Yng nghyd-destun gêm gymdeithasol gyfarwydd, dal ati i ailgyflawni gweithred er mwyn cael gwobr), ewch at y dysgwr ac arhoswch iddo gychwyn gêm.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn ceisio cychwyn gêm, e.e. drwy estyn ei freichiau tuag at yr oedolyn, neu drwy ryw ffordd arall.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Gweler yr wybodaeth ynghylch bocs 30 y Map llwybrau (Yng nghyd-destun gêm gymdeithasol gyfarwydd, dal ati i ailgyflawni gweithred er mwyn cael gwobr) ar dudalen 43 y llyfryn asesu hwn. Ysgogwch y dysgwr i gychwyn gêm ac ymatebwch, e.e. bydd y dysgwr yn bwrw tegan oddi ar y bwrdd ac yna'n tynnu eich sylw i'w gael yn ôl.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a champau eraill

Mae'r dysgwr yn gwneud ymgais i gychwyn gêm neu drefn gymdeithasol. Mae'r hyn y mae'n ei wneud yn mynd y tu hwnt i barhau â gêm sydd eisoes yn digwydd neu ymateb i gyfle sy'n codi.

Mae angen trefn gyfarwydd ar y dysgwr a/neu mae angen partneriaid cyfathrebu cyfarwydd ar y dysgwr sy'n talu sylw ac yn gallu adnabod ymgais i gychwyn gêm.

Enghreifftiau

Os caiff unrhyw beth ei adael yn ddigon agos ati, bydd Poppi yn ei godi ac yn ei ollwng ar y llawr. Os caiff ei roi'n ôl yn ei le gan un o'r staff, bydd yn chwerthin ac yn ei ollwng ar y llawr unwaith eto.

Yn ystod egwyl y prynhawn, edrychodd Dylan arnaf ac estyn ei freichiau tuag ataf ar gyfer gêm o 'Gee ceffyl bach' yr oeddem wedi chwarae gyda'n gilydd yn gynharach y diwrnod hwnnw.

40 Talu sylw ar y cyd

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Gosodwch stimwlws newydd neu ddiddorol yn gymharol agos (ond y tu hwnt i gyrraedd y dysgwr) ac arhoswch i weld a yw'r dysgwr yn edrych yn ôl ac ymlaen rhwng y gwrthrych a'r partner cyfathrebu.

Dylai'r dysgwr ymuno â'r oedolyn i dalu sylw i stimwlws, gan gadarnhau sylw'r oedolyn drwy gydol y sesiwn.

Anweswch gi. Ydy'r dysgwr hefyd yn cyffwrdd y ci ac yn gwenu ar yr oedolyn?

Pwyntiwch at eitem nad yw'n rhy bell i ffwrdd. Ydy'r dysgwr yn edrych tuag at yr eitem, ac yna'n ôl at yr oedolyn?

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn tynnu sylw oedolyn, er enghraifft:

- edrych tuag at neu ddynodi stimwlws, ac yna edrych yn ôl at yr oedolyn
- llonyddu i sŵn neu symud i gerddoriaeth, ac yna edrych yn ôl at yr oedolyn
- cyffwrdd eitem ac yna teimlo am law'r oedolyn.

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn dangos pleser yn y broses o rannu neu'n ceisio cyfathrebu ynghylch yr eitem.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Addysgwch y dysgwr sut i dalu sylw ar y cyd drwy ei ysgogi (ar lafar neu drwy gyffwrdd) i edrych ar eitem a ddewisir gan yr oedolyn, gwranddo arno neu ei deimlo, ac yna i dalu sylw i'r oedolyn ac i'r eitem am yn ail.

Achubwch ar y cyfle i rannu stimwlws y mae'r dysgwr yn talu sylw iddo. Anogwch ef i dalu sylw i'r stimwlws ac yna i'r oedolyn am yn ail. Mae hyn yn allweddol i'w allu i gyfathrebu yn y dyfodol.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a champau eraill

Mae'r dysgwr yn:

- hoelio ei olwg ar wrthrych, yna'n tynnu ei sylw oddi ar y gwrthrych, a symud ei lygaid nes ei fod yn syllu i wyneb eiartner

a/neu'n

- hoelio ei olwg ar wyneb eiartner, yna'n tynnu ei sylw oddi ar ei wyneb, a symud ei lygaid nes ei fod yn syllu ar wrthrych.

Mae'r cam hwn yn cyfateb i Lefel II yr *eye-Point Scale* (*Shifts gaze to face*)⁷.

Mewn cyd-destunau cyfarwydd, mae'r dysgwr yn ymateb i dalu sylw ar y cyd ac yn ei ysgogi heb i hynny fod yn rhan o drefn gymdeithasol gyfarwydd.

Enghreifftiau

Wrth rannu llyfr stori ag oedolyn, edrychodd Olivia i fyny bob hyn a hyn gan wenu ar yr oedolyn, cyn troi'n ôl i edrych ar y llyfr.

Wrth chwarae ar y sgrîn blasma, edrychodd Daniel ar effaith yr hyn yr oedd wedi'i wneud, yna edrychodd arnaf i a gwenu.

⁷ Coleg Prifysgol Llundain ac Ysbyty Great Ormond Street. *Eye-Pointing Classification Scale*. Gwefan: www.ucl.ac.uk/gaze (Saesneg yn unig)

Thema 8: Newid ffocws

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth i'w sylw symud rhwng un gwrthrych neu ddigwyddiad a gwrthrych neu ddigwyddiad arall.

Mae yna gysylltiad agos rhwng y thema hon a Thema 5 (Gwybod lle mae gwrthrych). Fodd bynnag, yn y thema hon, mae ffocws y dysgwr yn symud rhwng un stimwlws ac un arall.

Asesu gallu dysgwyr i newid ffocws


Mae pob ymddygiad a gynrychiolir o fewn y thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr dynnu ei sylw oddi ar ffocws cychwynol ei ddiddordeb.

Y sgil gyntaf yw'r gallu i symud sylw o un targed gweledol i un arall pan fydd y targed cyntaf yn diflannu. Yna, bydd dysgwyr yn dysgu symud eu sylw yn haws, hyd yn oed pan fydd dau wrthrych yn weladwy ar yr un pryd. Mae datblygu'r gallu i dynnu sylw oddi ar wrthrych fel hyn a'i ailgyfeirio i wrthrych neu ddigwyddiad arall mewn lleoliad gwahanol yn elfennau o is-system sylw y gellir cyfeirio ati fel 'rheoli sylw' neu 'weithgarwch gweithredol'.

Wrth i ddysgwr symud o un bocsys y Map llwybrau i'r llall o fewn y thema hon, daw'n well am ffrwyno'r ymatebion awtomatig oedd yn arfer rheoli ei sylw. O ganlyniad, bydd ganddo fwy o reolaeth dros yr hyn y mae'n talu sylw iddo (gweler 'Thema 3: Ymateb i batrwm a gyflwynir mwy nag unwaith' am fwy o wybodaeth am elfennau eraill sylw).

Er bod y disgrifiad uchod yn pwysleisio sut mae gwrthrych yn edrych, mae sut mae'n teimlo, yn blasu, yn aroglu ac yn swnio yr un mor bwysig, ac yn aml yn cydweithio. Er enghraifft, efallai y bydd dysgwr yn cydio mewn gwrthrych, yn ei drin a'i drafod, yn dod ag ef i'w geg i'w archwilio, cyn ei roi i'r neilltu er mwyn cydio mewn stimwlws gwahanol.

Mae bocsys 25 y Map llwybrau (Newid ymddygiad wrth ymateb i ddigwyddiad diddorol gerllaw) yn arddangos y ffaith bod 'newydd-deb' yn parhau i fod yn ffactor pwysig o ran tynnu/cynnal sylw – gall y dysgwr nawr dynnu ei sylw oddi ar ei weithgarwch presennol er mwyn canolbwyntio ar rywbeth newydd a mwy 'diddorol'. Mae digwyddiadau o'r fath nad ydyn nhw wedi'u cynllunio yn codi ar hap ym mhob rhan o fywyd, gan gynnwys yn yr ysgol, ac yn darparu cyfleoedd asesu gwych. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd hyblygrwydd wrth gynllunio.



Erbyn bocs 29 y Map llwybrau ('Edrych' yn ôl ac ymlaen o un gwrthrych i'r llall (gwybod bod dau wrthrych yn bresennol)), mae'r dysgwr yn gallu tynnu ei sylw oddi ar fwy nag un gwrthrych pan gyflwynir gwrthrychau gyda'i gilydd. Mae'r gallu i symud sylw yn ôl ac ymlaen rhwng gwrthrychau yn angenrheidiol er mwyn gallu cymharu'n gywir ac er mwyn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Ydy'r dysgwr yn edrych o un gwrthrych at wrthrych neu ddigwyddiad arall mewn lleoliad gwahanol?
- Ydy'r dysgwr yn gallu talu sylw i un eitem/digwyddiad yn benodol ac yna i un arall wedi hynny?
- Ydy'r dysgwr yn gallu talu sylw, am yn ail, i ddau wrthrych neu ddigwyddiad sydd o fewn ei amgylchedd ar yr un pryd?

18 Ailgyfeirio sylw at ail wrthrych

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Tra bydd y dysgwr yn rhoi sylw i wrthrych, cynigiwch ail eitem ddiddorol i'w annog i ailgyfeirio ei sylw.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn colli diddordeb yn y gwrthrych cyntaf ac yn troi ei sylw at eitem newydd.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Ceisiwch ysgogi'r dysgwr i archwilio ail wrthrych, drwy edrych arno neu ei gyffwrdd, gan roi amser iddo ailgyfeirio ei sylw.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a champau eraill

Mae'r dysgwr yn edrych ar wrthrych newydd ar ôl iddo gael ei gyflwyno/yn cydio ynddo/yn dechrau ei archwilio.

Dim ond un gwrthrych sy'n bresennol (i ddechrau).

Mewn perthynas ag ymddygiad 'edrych' y dysgwr, mae'r cam hwn yn cyfateb i Lefel III yr *eyePoint Scale (Fixes, disengages and shifts gaze)*⁸.

D.S. Nid yw symud sylw yn gyfystyr â gwneud dewis.

Enghreifftiau

Pan gynigir offeryn cerdd iddi, bydd Nahid yn edrych arno ac yn estyn amdano. Os cyflwynir ail offeryn, bydd yn gollwng y cyntaf ac yn estyn am yr un newydd.

Pan fydd eitem o fwyd ar y bwrdd, bydd Matthew yn estyn amdani, ond yna os caiff ei botel ddiod ei osod o fewn golwg iddo, bydd yn estyn am honno yn ei lle.

⁸ Coleg Prifysgol Llundain ac Ysbyty Great Ormond Street. *Eye-Pointing Classification Scale*. Gwefan: www.ucl.ac.uk/gaze (Saesneg yn unig)

25

Newid ymddygiad wrth ymateb i ddigwyddiad diddorol gerllaw

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cyflwynwch ail degan/stimwlws/oedolyn/cyfoed gerllaw tra bydd y dysgwr yn ymwneud â gweithgaredd.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn 'sylwi' ar ail ddigwyddiad/stimwlws ac yn ymateb neu'n newid ei ymddygiad, e.e. drwy droi, talu sylw neu ddefnyddio'i lais.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Cyflwynwch ail weithgaredd, e.e. bod oedolyn neu gyfoed wedi dod i mewn i'r ystafell. Tynnwch sylw'r dysgwr ato.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae sylw'r dysgwr yn troi at ddigwyddiad newydd.

Efallai mai dros dro y caiff ei sylw ei dynnu – efallai y bydd y dysgwr yn troi'n ôl at ei weithgaredd flaenorol neu'n anghofio am y peth – gan ddibynnu ar ba mor ddiddorol yw'r digwyddiad.

Enghreifftiau

Yn ystod amser cylch, daeth aelod staff o ddsbarth arall i mewn i'r ystafell mewn gwisg ffansi yn chwarae'r gitâr. Trodd Caleb i edrych a gwrando.

Os bydd rhywun yn dod i mewn i'r ystafell pan fydd Hannah yn defnyddio'r cyfrifiadur, bydd yn anwybyddu'r cyfrifiadur ac yn canolbwyntio ar yr ymwelydd.

29

'Edrych' yn ôl ac ymlaen o un gwrthrych i'r llall (gwybod bod dau wrthrych yn bresennol)

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Gosodwch ddau wrthrych deniadol ar hambwrdd y dysgwr i'w harchwilio yn weledol neu drwy eu cyffwrdd; tynnwch sylw'r dysgwr at y ddau ac arhoswch.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch a yw'r dysgwr yn rhoi sylw i'r ddau wrthrych yn eu tro, neu'n eu teimlo, ac yn ailgyfeirio ei sylw.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Rhowch gynnig ar ysgogi'r dysgwr i archwilio'r ddau wrthrych yn eu tro, gan roi amser iddo ailgyfeirio ei sylw. Mae angen i'r ddau wrthrych fod o fewn cwmpas golwg/gofod y dysgwr.

Anogwch y dysgwr i archwilio'r ddau wrthrych, yn hytrach na 'dewis' un ohonyn nhw.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn archwilio un gwrthrych, ac yna'r ail wrthrych.

Mae'r dysgwr yn parhau i ddangos rhywfaint o ddiddordeb yn y ddau wrthrych, gan roi sylw i'r naill a'r llall ar wahanol adegau.

Mae dau wrthrych yn bresennol drwy gydol y sesiwn.

D.S. Nid yw rhoi sylw i wrthrychau am yn ail yn gyfystyr â gwneud dewis.

Enghreifftiau

Edrychodd Elis yn ôl ac ymlaen o'r tegan ysgwyd i'r clychau, ddwywaith; y clychau oedd yn ei ddiddori fwyaf, i bob golwg.

Yn yr ogof synhwyraidd, estynnodd Laura am y clychau, yr addurniadau ac, unwaith eto, y clychau.

Thema 9: Cysylltu gweithred â chanlyniad

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth iddyn nhw ddechrau gweld arwyddocâd eu gweithredoedd mewn perthynas â'u heffeithiau.

Mae yna gysylltiad agos rhwng y thema hon a Thema 6 (Gweithredu o fewn amgylchedd y dysgwr).


Asesu gallu dysgwyr i gysylltu gweithred â chanlyniad

Mae'n hollbwysig sicrhau bod dysgwyr sy'n gweithio ar focs y Map llwybrau yn y thema hon yn cael y cyfle gorau posibl i gysylltu

unrhyw weithred ganddyn nhw â chanlyniad penodol. Efallai y bydd angen ystyried hyn yn benodol mewn amgylcheddau amlsynhwyrdd (megis ystafelloedd gwyn neu lorïau synhwyrdd). Os oes dysgwyr eraill yn bresennol, ac os ydyn nhw hefyd wrthi'n creu effeithiau, bydd hyn yn ddryslyd ac mae'n annhebygol y bydd yna ddysgu yn digwydd.

Mae bocs 19 y Map llwybrau (Gweithredoedd damweiniol yn achosi effaith) yn cyfeirio at weithredoedd 'damweiniol' y dysgwr neu sy'n digwydd ar hap, ond wrth asesu ac addysgu, mae angen cynllunio pob elfen o'r amgylchedd dysgu yn ofalus.

- Dylid nodi gweithred(oedd) f/mwyaf dibynadwy y dysgwr (ar sail gwybodaeth a gasglwyd wrth asesu themâu cynharach); yna dylid cynllunio popeth o amgylch hynny.
- Mae'n bosibl y bydd angen gosod unrhyw wrthrych mewn man penodol iawn – yn agos at y man lle bydd gweithred y dysgwr yn gorffen. Er mwyn cyflawni hyn, efallai y bydd angen creu 'ystafell fach' er mwyn gallu hongian y gwrthrych yn y man iawn uwchben y dysgwr.
- Rhaid i'r gwrthrych a ddewisir allu creu effaith ddibynadwy bob tro mae 'gweithred' y dysgwr yn cysylltu ag ef.
- Mae angen i'r effaith fod yn un a fydd yn dal sylw'r dysgwr dros gyfnod o weithredu sawl gwaith (gweler 'gorgyfarwyddo' yn Thema 3: Ymateb i batrwm a gyflwynir mwy nag unwaith).



- Rhaid i'r effaith stopio unwaith y bydd gweithred y dysgwr yn stopio, neu'n fuan iawn wedyn. Mae angen i'r dysgwr allu cofio'r hyn a 'wnaeth': efallai na fydd clywed tŏn yn chwarae i'r diwedd yn effeithiol iawn felly. O arsylwi'n ofalus, bydd modd sefydlu pa mor hir mae'n ei gymryd i'r dysgwr 'sylwi' bod rhywbeth wedi digwydd. Yna dylid addasu hyd yr effaith yn unol â hynny. Mae effaith fyrrach yn rhoi cyfle mwy i ailgyflawni'r weithred ac i'r dysgwr brofi llwyddiant.

Mae *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau* yn rhoi mwy o wybodaeth am y thema hon ac esboniad clir o'r gwahaniaeth rhwng carreg filltir 23 y Map llwybrau (Ymateb i achos ac effaith) a charreg filltir 26 y Map llwybrau (Dangos dealltwriaeth bod gweithred ganddo yn achosi effaith benodol) (gweler tudalennau 34–35).

Er mai wrth ddefnyddio switshys a mathau eraill o dechnoleg y mae gweithredoedd bwriadol dysgwyr i'w gweld yn fwyaf amlwg, mae'n bwysig edrych ar gyd-destunau eraill ac ystyried yn arbennig sut mae dysgwyr yn dod i ddeall bod yr hyn a wnânt yn gallu sicrhau canlyniadau mewn perthynas â phobl.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Ydy'r dysgwr yn sicrhau canlyniad drwy siawns yn unig neu ydy ei weithred yn dangos cysondeb a manylder?
- Pa mor aml mae'n cyflawni'r weithred?
- Pa mor dda mae'n amseru ei weithred mewn perthynas â'r canlyniad?
- Ydy'r dysgwr yn ymateb i'w llwyddiant ei hun? Os felly, sut?

19 Gweithredoedd damweiniol yn achosi effaith

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Gosodwch y dysgwr ar arwyneb adweithiol, e.e. blanced ofod neu fwrdd synhwyrdd.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am:

- symud y dwylo neu'r bysedd yn annibynnol (ond ar hap)
- archwilio pwrpasol gyda'r geg neu rannau eraill o'r corff
- ymateb y dysgwr i unrhyw 'effeithiau' a grëir.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Defnyddiwch ystod o arwynebau neu deganau sy'n ymateb i gyffyrddiad (e.e. blanced oroesi, mat llawr rhyngweithiol, system seiniad, dol *Bobo*). Gallech chi hefyd ddefnyddio 'ystafell fach'. Rhowch gyfleoedd i'r dysgwr effeithio 'drwy siawns' ar ei amgylchedd uniongyrchol (e.e. drwy fwrw tegan swllyd). Atgyfnerthwch y gweithredoedd hyn, gan ei annog i'w hailgyflawni a sicrhau'r un canlyniad bob tro.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn gwneud i rywbeth ddigwydd yn agos ato cyn belled â bod:

- yr amgylchedd wedi'i drefnu'n ofalus fel bod symudiad o fewn repertoire y dysgwr yn dod i gysylltiad â'r defnydd(iau) targed
- y defnyddiau yn creu effaith synhwyrdd gref nad yw'r dysgwr yn ei hanwybyddu'n amlwg ac nad yw'r dysgwr yn ymateb yn negyddol iddi.

Nid oes angen i'r oedolyn fod yn bresennol yn barhaus ac nid yw'n darparu cymorth corfforol er mwyn hwyluso'r gweithredu.

Enghreifftiau

Symudodd Anwen ei thraed pan osodwyd y flanced ofod oddi tanynt. Roedd y sŵn fel pe bai o ddiddordeb iddi.

Rholiodd Li ar y mat cerddorol yn yr ystafell olau gan achosi i'r gerddoriaeth chwarae.

23 Ymateb i achos ac effaith

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Gan ddefnyddio gweithred y mae'r dysgwr wedi'i meistroli (e.e. cicio, gwasgu switsh), defnyddiwch wobr ac arsylwch lefel yr ymateb.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch:

- a yw'r dysgwr yn gwneud i rywbeth ddigwydd yn annibynnol
- a yw lefel y gweithredu yn cynyddu pan yw'n cael effaith, e.e. a yw'r cicio yn cynyddu pan yw'n gwneud i declyn symudol symud
- a yw'r dysgwr yn aros am wobr i orffen cyn gwasgu switsh eto, ac ati.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Ar hyn o bryd, efallai nad yw'r dysgwr yn deall yn llawn y cysylltiad rhwng ei weithred a'r canlyniad. Sicrhewch fod y weithred yn creu canlyniad cyson er mwyn helpu sefydlu'r cysylltiad hwn ym meddwl y dysgwr.

Efallai y bydd clymu llinyn i bigwrn y dysgwr i wneud i declyn symudol symud yn dechneg arbennig o effeithiol – mwya'n byd y bydd y dysgwr yn cicio, mwya'n byd y bydd y declyn yn symud. Mae'r dechneg hon yn sicrhau bod y dysgwr yn derbyn adborth da.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chymau eraill

Mae'r dysgwr yn gweithredu'n llwyddiannus er mwyn gwneud i rywbeth ddigwydd (y wobr).

Mae'n dangos elfen o ddiddordeb yn y wobr.

Ar ôl profi llwyddiant, mae'n dal ati i gyflawni'r weithred.

Nid yw ei weithredoedd wedi'u cydamseru â chael y wobr o reidrwydd, ac efallai y bydd y dysgwr yn dal i gyflawni'r weithred yr un mor aml er bod y wobr wedi'i chael.

Enghreifftiau

Roedd Martina yn gwybod bod yn rhaid iddi wasgu'r sgrîn gyffwrdd er mwyn gwneud i rywbeth ddigwydd, a gwnaeth hyn sawl gwaith. Daliodd ati i wneud hynny tra roedd y wobr yn chwarae.

Mae Jordan yn taro'r clychau sawl gwaith, heb aros i'r sŵn y mae wedi'i greu ddiflannu'n gyntaf.

26

Dangos dealltwriaeth bod gweithred ganddo yn achosi effaith benodol

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Darparwch switsh ar gyfer tegan neu darparwch degan siglo, clychau gwynt, ac ati, y gellir eu gweithio â gweithred y mae'r dysgwr eisoes wedi'i dysgu.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn gweithredu'n fwriadol ac yn fwy cyson; er enghraifft:

- aros i wobwr ddod i ben cyn rhoi cynnig arall arni, gan gysylltu gweithred benodol â'i chanlyniad
- newid ym mynegiant yr wyneb neu yn lefel y canolbwyntio
- cywirdeb mwy.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Anogwch y dysgwr i gyflawni'r un weithred i greu effeithiau amrywiol. Sicrhewch fod y dysgwr yn llwyddiannus bob tro.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn gweithredu'n fwriadol i wneud i rywbeth ddigwydd.

Nid yw'n ailgyflawni'r weithred tra bo'r wobwr yn dal yn weithredol.

Mae'n talu sylw manwl i'r wobwr, ac efallai yn dangos pleser a chyffro.

Dim ond pan fydd y wobwr wedi dod i ben y bydd yn ailgyflawni'r weithred.

Enghreifftiau

Bydd Sam yn gwasgu switsh i weithredu sychwr gwallt neu i chwarae cerddoriaeth; mae'n gwenu pan fydd yn gweld ei fod yn gweithio ac mae'n aros. Unwaith bydd wedi stopio, bydd yn estyn allan i'w wasgu eto.


Mae Eira yn bwrw ei drwm ac yna'n aros ac yn gwranddo wrth i'r athro cerddoriaeth chwarae'r un patrwm mewn ymateb. Yna mae'n bwrw'r drwm eto.

Thema 10: Gweithredu i dynnu sylw eraill

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwcholeuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr pan fyddan nhw'n ceisio tynnu sylw rhywun arall.

Mae pob ymddygiad a ddisgrifir yma yn rhai lle mae'r dysgwr yn cychwyn y rhyngweithio, ac sy'n tynnu neu'n aildynnu sylw partneriaid cyfathrebu. Wrth i ddysgwyr ddatblygu, byddem yn disgwyl i'r ymddygiadau hyn ddod yn gynyddol bwrpasol ac yn haws eu deall a'u dehongli gan bobl nad ydyn nhw'n nabod y dysgwr cystal (gweler 'Y broses gyfathrebu' ar dudalennau 48–53 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau* i gael rhagor o fanylion am y cynnydd hwn).



Asesu gallu dysgwyr i weithredu i dynnu sylw eraill

Yn y thema hon, fel mewn rhai eraill, mae partneriaid cyfathrebu yn chwarae rhan allweddol drwy fod yn sensitif i unrhyw ymdrechion a wna dysgwyr i dynnu eu sylw a sylwi arnyn nhw. Mae bocs 15 y Map llwybrau (Gwrthwynebu dod â rhyngweithio i ben) yn cynrychioli dull cynnar o dynnu sylw. Er bod ymddygiad y dysgwr yn 'rhagweithiol', mae'n dibynnu ar drefn reolaidd ac yn codi o fewn trefn o'r fath. Hyd yma, nid yw wedi'i gyfeirio tuag at y partner (er mwyn cael effaith ar ei ymddygiad yntau).

Mewn sefyllfa oedd â llai o strwythur iddyn nhw (e.e. yn y cyfnodau rhwng gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio, arferion cymdeithasol neu ryngweithio cymdeithasol), mae angen cymryd gofal arbennig i sicrhau bod dysgwyr nad ydyn nhw'n gallu defnyddio strategaethau lleisiol yn gallu tynnu sylw partner serch hynny. Mae'n bosibl bod dysgwyr o'r fath yn dibynnu ar bobl eraill yn rhoi eu hunain mewn safle lle maen nhw'n gallu gweld y dysgwr yn glir. Yn yr un modd, pan fo nam yn cyfyngu ar allu dysgwr i weld neu glywed, efallai y bydd rhaid i bartneriaid cyfathrebu posibl gymryd gofal arbennig i sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol bod partner cyfathrebu posibl gerllaw. Wedyn mae'n bosibl y bydd dysgwyr unigol yn dechrau tynnu sylw drwy ddefnyddio'r weithred(oedd) y mae ganddyn nhw y rheolaeth fwyaf dibynadwy drostyn nhw.

Mae angen i bartneriaid cyfathrebu fod yn sylwgar ac ymateb yn gyson i unrhyw gychwyn rhyngweithio o'r fath. I ddechrau, efallai y bydd angen iddyn nhw fod 'ar gael' yn eithaf agos at y dysgwr (bocs 32 y Map llwybrau (Tynnu sylw)). Fodd bynnag, pan all y dysgwr dynnu sylw'n gyson yn y modd hwn, gall y partner cyfathrebu annog mwy o annibyniaeth a mireinio ymddygiad y dysgwr drwy fod ymhellach i ffwrdd, drwy fod yn llai gwylidwrus a chan ymateb i'w ymdrechion mwyaf eglur i gychwyn rhyngweithio yn unig (bocs 39 y Map llwybrau (Tynnu sylw person arall yn fwriadol er mwyn cyfathrebu angen)).

Mae arfer ymreolaeth (carreg filltir 43 y Map llwybrau (Cychwyn strategaethau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir mewn amryw o gyd-destunau (arfer ymreolaeth))) yn sgil sy'n dangos cryn ddatblygiad mewn unrhyw ddysgwr sydd ag ADDLI. Mae dysgwr sydd wedi meistrolï'r cam hwn yn gallu cychwyn gweithredu lle mae gofyn cynllunio i ryw fesur. I bob pwrpas, gellir gweld ei fod yn cynllunio is-gamau i gyrraedd nod wrth ddatrys problemau (gweler Thema 11: Datrys problemau), nid yn unig wrth ryngweithio â'r amgylchedd ffisegol (pan fydd â'r gallu yn gorfforol i wneud hynny) ond hefyd wrth ryngweithio'n gymdeithasol. Mae hyn hefyd yn awgrymu rhyw gymaint o ymwybyddiaeth ohono'i hun fel 'bod annibynnol' sy'n gallu cael effaith ar ymddygiad pobl eraill. Rôl y partner cyfathrebu nawr yw hwyluso ymreolaeth y dysgwr wrth weithredu, a thrwy hynny ei hatgyfnerthu.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Ydy'r dysgwr yn ceisio cael sylw ar adegau pan nad oes unrhyw un yn rhyngweithio ag ef, neu er mwyn aildechrau trefn sydd eisoes wedi'i sefydlu yn unig?
- I ba raddau mae'n rhaid i'r partner cyfathrebu fod gerllaw ac wrthi'n rhoi sylw i'r dysgwr i wneud iddo gychwyn rhyngweithio?
- A all y dysgwr ddefnyddio ei sgiliau i dynnu sylw partneriaid cyfathrebu llai cyfarwydd?
- I ba raddau y mae ymgais y dysgwr i dynnu sylw yn ymddangos fel pe bai wedi'i strwythuro i gyflawni nod cyfathrebu penodol (e.e. cael tegan penodol neu rannu rhywbeth sydd o ddiddordeb iddo)?

15 Gwrthwynebu dod â rhyngweithio i ben

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Torrwch ar y rhyngweithio yn ystod y sesiwn; trowch i ffwrdd a stopio'r gweithgarwch. Nodwch ymateb y dysgwr.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am strategaethau y mae'r dysgwr yn eu defnyddio sy'n ymddangos fel pe baen nhw'n arwyddo ei fod yn dymuno i'r 'sgwrs' barhau, e.e. drwy symud ei lygaid neu ei gorff neu drwy ddefnyddio'i lais.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Sicrhewch fod ymarferwyr yn ymateb yn gyson i'r arwydd.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a champau eraill

Pan gaiff trefn gymdeithasol gyfarwydd ei stopio, mae'r dysgwr yn ymddwyn mewn ffordd sy'n dynodi dichter neu siom.

Mae ei ymddygiad yn ymddangos yn debycach i ymateb uniongyrchol i'r ffaith bod y rhyngweithio wedi dod i ben, yn hytrach na chais i'r partner cyfathrebu ailddechrau.

Enghreifftiau

Mae Alex yn cymryd tro i guro dwylo gyda'i hathro. Pan fydd yr athro'n troi i ateb cydweithiwr, mae Alex yn dechrau crio.

Roeddwn yn anwesu braich Liam yn dyner. Pan wnes i stopio a thynnu fy llaw yn ôl, dechreuodd guro'r hambwrdd o'i flaen a defnyddio llais uchel.

32 Tynnu sylw

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Arhoswch o fewn golwg/clyw y dysgwr ond peidiwch â rhyngweithio ag ef; arhoswch i weld a yw'r dysgwr yn gweiddi, yn chwifio dwylo neu'n crio, ac ati. Gallai hyn fod yn ymateb bach iawn.

Pethau i chwilio amdany nhw

Edrychwch i weld a yw'r dysgwr yn ceisio tynnu sylw staff cyfarwydd sydd gerllaw.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Crëwch sefyllfaoedd lle mae staff cyfarwydd gerllaw, ond heb fod yn rhyngweithio â'r dysgwr. Atgyfnerthwch yn gyson ymdrechion y dysgwr i dynnu eu sylw.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chymau eraill

Yn absenoldeb rhyngweithio cymdeithasol, mae'r dysgwr yn cychwyn tynnu sylw a bwrw bod partneriaid cyfathrebu sylwgar, ymatebol a chyfarwydd gerllaw, ac yn barod i ymateb.

Enghreifftiau

Bydd Dafydd yn ymestyn ac yn tynnu ar ddwylo neu ddillad oedolyn i gael sylw (os yw'n ddigon agos ato). Os yw Robyn yn anghyfforddus yn ei hoffer eistedd/sefyll a bod oedolyn gerllaw, bydd yn edych i'w gyfeiriad ac yn galw allan nes iddo ddod draw ati.

39

Tynnu sylw person arall yn fwriadol er mwyn cyfathrebu angen

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Ceisiwch osgoi talu sylw i'r dysgwr. Arsylwch y strategaethau a ddefnyddir i gael sylw, heb unrhyw ymyrraeth o flaen llaw. Gall y rhain gynnwys:

- defnyddio'r llais nes bod oedolyn yn ymddangos, yna stopio
- gwrthio eitemau oddi ar hambwrdd ac yna gwenu pan fydd oedolyn yn ymddangos
- stopio gweithgarwch er mwyn pwysu switsh sydd wedi cael ei ddefnyddio'n gyson (â chymorth) i alw oedolyn draw.

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Chwiliwch am bob ymgais ddigymell i dynnu sylw oedolyn, yn arbennig ar adegau pan nad yw oedolyn yn disgwyl hynny. Gellir addysgu strategaethau (e.e. gwasgu switsh penodol a allai fod ar hambwrdd neu gadair) ond rhaid iddyn nhw ddod i gael eu defnyddio ar delerau'r dysgwr ac nid yn unig ar ôl anogaeth oedolyn.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Dewiswch weithred yn repertoire y dysgwr y gall oedolyn ymateb iddo'n gyson drwy roi sylw, er enghraifft:

- gwasgu switsh (wedi'i adael ar gael yn yr un safle)
- defnyddio'r llais yn uwch na lefel benodol
- symud breichiau/coesau/llygaid, ac ati.

Drwy ymateb yn gyson i'r weithred, mae'r oedolyn yn annog y dysgwr i gyflawni'r weithred yn y dyfodol er mwyn cael sylw oedolyn fel gwobr.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Yn absenoldeb rhyngweithio cymdeithasol, mae'r dysgwr yn cychwyn tynnu sylw.

Gellir dehongli'r cais yn glir, hyd yn oed gan bartneriaid cyfathrebu:

- nad ydyn nhw'n nabod y dysgwr yn dda
- nad ydyn nhw'n agos at y dysgwr ar y pryd
- y mae eu sylw ar bethau eraill.

Enghreifftiau

Pan fydd Ryan eisiau dod allan o'i gadair (neu i fyny o'r llawr), bydd e'n defnyddio llais uchel i dynnu sylw un o dîm y dosbarth, gan ddal ei freichiau i fyny wrth wneud hynny.

Pan fydd Melanie yn gweithio ar ei phen ei hun (e.e. yn defnyddio'r cyfrifiadur) ac eisiau rhywbeth, mae hi'n curo ochr (fetel) ei chadair olwyn nes bydd rhywun yn dod draw i siarad â hi.

43

Cychwyn strategaethau i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir mewn amryw o gyd-destunau (arfer ymreolaeth)

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Safwch neu eisteddwch yng ngolwg y dysgwr, ond peidiwch â thalu sylw iddo. A yw'r dysgwr wedyn yn ceisio tynnu eich sylw? A yw wedyn yn mynd ymlaen i ofyn am eitem sydd allan o'i olwg neu o'i gyrraedd?

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch am:

- ymdrechion i ddenu sylw oedolion (fel uchod) a gwneud cais, e.e. defnyddio'r llais i gael sylw ac yna cyffwrdd symbol ar hambwrdd
- amseru pwyso ar switsh i gael y canlyniad y mae'n ei ddymuno mewn rhaglen gyfrifiadurol.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Cynyddwch amrywiaeth y sefyllfaoedd lle mae gofynion yn cael eu rhoi ar y dysgwr i ddenu sylw ac i ofyn am bethau. Sicrhewch fod yr oedolion yn ymateb yn gyflym ac yn gyson. Peidiwch â rhagweld dymuniadau'r dysgwr – crëwch gyfleoedd i gyfathrebu.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ymgysylltu â phartner cyfathrebu, gan ddefnyddio strategaeth fel defnyddio'r llais neu ymestyn, **ac** mae'n tynnu ei sylw at rywbeth y mae ei eisiau.

Mae'r dysgwr yn ymgysylltu â phartner cyfathrebu **ac** yn cyfleu ei fod eisiau i'r partner wneud rhywbeth fel ei godi neu ei ogleisio.

Mae'r dysgwr yn defnyddio'r strategaethau hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Ar gyfer dysgwyr sy'n dibynnu ar bwyntio â'u llygaid, mae'r dysgwr yn:

- hoelio ei olwg ar wrthrych, yna'n tynnu ei sylw oddi ar y gwrthrych, a symud ei lygaid nes ei fod yn syllu i wyneb ei bartner, cyn mynd yn ôl i syllu ar yr un gwrthrych drachefn
- hoelio ei olwg ar wyneb y partner, yna'n tynnu ei sylw oddi ar ei bartner a symud ei lygaid nes ei fod yn syllu ar wrthrych, cyn mynd yn ôl i syllu drachefn ar wyneb yr un partner.

Mae'r cam hwn yn cyfateb i Lefel I yr *eyePoint Classification Scale* (*Uses Eye-Pointing*).⁹

Enghreifftiau

Bu Jamie'n defnyddio llais uchel nes i mi roi'r gorau i'r hyn roeddwn yn ei wneud a mynd draw ato. Yna pwyntiodd at y sinc i ddynodi ei fod eisiau chwarae â dŵr. Mae hefyd yn denu ein sylw fel hyn, ac yna'n pwyntio at ei lyfr neu at y cwpwrdd lle cedwir ei ddiod a'i fyrbryd.

Ar ddiwedd y diwrnod ysgol, mae Thea'n galw ar ei hoff oedolyn yn y dosbarth ac yna'n edrych ar y gannwyll sydd wedi'i chynnu. Mae hi'n dal ati nes i'r oedolyn ddod draw a dal y gannwyll fel ei bod hi'n gallu chwythu i'w diffodd. Mae'n tynnu ein sylw yn rheolaidd yn y ffordd hon i'w helpu i gyflawni pethau eraill y mae hi eisiau'u gwneud ond nad yw'n gallu'u cyflawni (yn gorfforol) ar ei phen ei hun.

⁹ Coleg Prifysgol Llundain ac Ysbyty Great Ormond Street. *Eye-Pointing Classification Scale*. Gwefan: www.ucl.ac.uk/gaze (Saesneg yn unig)

Thema 11: Datrys problemau

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth iddyn nhw ddyfalbarhau i gyflawni nod o fewn eu hamgylchedd ffisegol.

Er bod yr ymddygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y thema hon yn cael eu disgrifio yn nhermau gweithredu mewn perthynas â gwrthrychau yn yr amgylchedd ffisegol (ac felly ar ochr dde'r Map llwybrau), mae'n bosibl y gellir hefyd ddefnyddio'r dulliau o ddatrys problemau a ddisgrifir yma wrth ryngweithio â phobl.


Er enghraifft, mae 'ailgyflawni gweithred' (bocs 31 y Map llwybrau (Ailgyflawni gweithred pan yw'r ymgais gyntaf yn aflwyddiannus)) yn berthnasol

i gêm gymdeithasol ym mocs 30 y Map llwybrau (Yng nghyd-destun gêm gymdeithasol gyfarwydd, dal ati i ailgyflawni gweithred er mwyn cael gwobr) (gweler Thema 7: Bod yn gymdeithasol).

Asesu gallu dysgwyr i ddatrys problemau

Mae dysgwyr sydd ag ymwybyddiaeth o achos ac effaith (gweler Thema 9: Cysylltu gweithred â chanlyniad) yn mynd ati'n fwriadol i gyflawni amcanion o fewn eu harferion cyfarwydd iawn. Pryd bynnag y bydd gweithred benodol yn llwyddiannus, efallai y bydd yn dod â phleser neu gyffro i'r dysgwr (ymwybyddiaeth o gyflawni rhywbeth), a hynny yn ei dro yn atgyfnerthu ei ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'r weithred honno yn arwain ato.

O ymarfer yn gyson, bydd yn dechrau gallu rhagweld canlyniad yr hyn y mae am ei wneud cyn cyflawni'r weithred ac wrth wneud. Gallen nhw wedyn ddechrau sylwi pan fydd yr hyn sy'n digwydd yn wahanol i'r hyn a ragwelwyd. Bydd y broses 'adborn' hon yn ei alluogi i addasu'r weithred wreiddiol er mwyn cyflawni'r canlyniad yn fwy effeithlon. Ond, oherwydd ffactorau amrywiol, ar adegau efallai, y bydd yr un weithred yn llai llwyddiannus.



Mae'r thema hon yn ymwneud â sut caiff gweithredoedd bwriadol dysgwr eu mireinio ymhellach er mwyn goresgyn unrhyw anawsterau. Mae bocsys Map llwybrau y thema hon yn cynrychioli dulliau gwahanol y bydd dysgwr yn eu defnyddio, efallai, i ddatrys problemau.

- Nid yw bocs 31 y Map llwybrau (Ailgyflawni gweithred pan yw'r ymgais gyntaf yn aflwyddiannus) yn golygu newid y weithred wreiddiol y mae'r dysgwr wedi bod yn ei chyflawni. Ailgyflawnir y weithred am nad yw'r canlyniad wedi'i sicrhau eto. Mae'n bosibl iawn y bydd yn llwyddiannus o roi cynnig arall arni.
- Mae'r ymddygiad a ddisgrifir ym mocs 35 y Map llwybrau (Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn er mwyn cael gwobr) yn fwy soffistigedig gan fod angen i'r dysgwr symud ei ffocws i 'is-amcan' ac i gyflawni hwnnw cyn (ac er mwyn cyflawni) y canlyniad a ragwelir. I bob pwrpas, rhaid iddo ychwanegu cam newydd cyn neu ar ôl y weithred wreiddiol er mwyn datrys y broblem dan sylw. Mae cysylltiad agos rhwng y dull hwn o ddatrys problem a 'sefydlogrwydd gwrthrychau' (lle mae angen symud un gwrthrych, er enghraifft, er mwyn cyrraedd y gwrthrych a ddymunir).
- Ym mocs 38 y Map llwybrau (Addasu gweithred pan nad yw ailgyflawni'r weithred yn gweithio), nid yw'r weithred wreiddiol yn gweithio mwyach er mwyn sicrhau'r canlyniad, hyd yn oed o'i hailgyflawni, ac nid yw ychwanegu camau yn briodol chwaith. Mae'r dysgwr nawr yn gorfod mynd ati i addasu'r weithred wreiddiol, a pharhau i wneud hynny hyd nes ei fod yn llwyddo.
- Erbyn iddo gyrraedd bocs 42 y Map llwybrau (Dangos arwyddion cynnar o ddatrys problemau – rhoi cynnig ar strategaeth newydd pan yw'r hen un yn methu), mae'r dysgwr yn gweld na fydd y weithred wreiddiol yn cyflawni'r nod. Mae'n rhoi'r gorau i honno felly, ac yn defnyddio gweithred gwbl wahanol sy'n caniatáu iddo lwyddo.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- Ydy'r dysgwr yn gwneud mwy nag un ymgais i gyrraedd y nod?
- I ba raddau y mae'n ceisio addasu'r weithred wreiddiol?
- Ydy e'n gallu cyflawni mwy nag un weithred, un ar ôl y llall, er mwyn cyrraedd y nod?
- Ydy e'n gallu disodli'r strategaeth wreiddiol ag un arall?
- Am ba mor hir mae'n parhau i ddefnyddio'r strategaeth wreiddiol cyn newid?

31

Ailgyflawni gweithred pan yw'r ymgais gyntaf yn aflwyddiannus

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Ceisiwch:

- symud switsh y dysgwr ryw fymryn
- newid yr arwyneb er mwyn ei gwneud yn anoddach symud tegau
- defnyddio switsh y mae modd addasu'r pwysau sydd ei angen i'w ysgogi, gan gynyddu ychydig pa mor galed y mae angen gwasgu.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am enghraifft fel y dysgwr yn colli'r switsh y tro cyntaf, neu fethu â'i wasgu ddigon, ond trio eto a llwyddo.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Efallai y byddwch chi am annog y dysgwr i feithrin sgiliau datrys problemau drwy symud safle'r switsh ryw fymryn. Fodd bynnag, dylech chi fod yn ofalus i beidio â drysu'r dysgwr nac achosi rhwystredigaeth iddo.

Gellir addysgu'r cam hwn mewn sefyllfaoedd o bob math (h.y. nid dim ond drwy ddefnyddio switshys a mathau eraill o dechnoleg).

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ceisio gwneud i rywbeth ddigwydd, ond nid yw'n llwyddo.

Mae'r dysgwr yn ailgyflawni'r weithred wreiddiol (efallai fwy nag unwaith).

Nid oes ymgais o gwbl i newid y weithred ei hun er y bydd y dysgwr efallai yn ymestyn ychydig ymhellach, er enghraifft, neu'n gwasgu ychydig yn galetach.

Enghreifftiau

Os gosodir gwrthrych ychydig y tu hwnt i'w chyrraedd, bydd Sophia yn ceisio ei gyrraedd dro ar ôl tro. Os caiff y gwrthrych ei symud yn nes fesul tipyn, bydd yn parhau i ymestyn amdano yn yr un ffordd hyd nes ei bod yn llwyddiannus o'r diwedd.

Ceisiodd Leon afael mewn tegau a oedd yn nofio i ffwrdd ar wyneb dŵr y pwll. Ymestynnodd amdano sawl tro wrth i mi ei symud yn araf i'w gyfeiriad, hyd nes iddo gael gafael arno o'r diwedd.

35

Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn er mwyn cael gwobr

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Adeiladwch ar drefn sydd eisoes wedi'i sefydlu i annog y dysgwr i wneud dau beth er mwyn cael gwobr, e.e. y dysgwr yn gwasgu dau switsh, un ar ôl y llall, er mwyn cael gwobr ar raglen gyfrifiadurol.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am leihad yn yr amser rhwng y ddwy weithred. Dylid eu gwneud un ar ôl y llall yn hytrach nag oedi ar ôl y weithred gyntaf.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Dylai'r gweithredoedd a ddefnyddir yma fod yn ymatebion sydd eisoes wedi'u sefydlu. Helpwch y dysgwr i ddatblygu arfer newydd drwy aros nes iddo gyflawni'r ail weithred cyn rhoi gwobr iddo. Gwnewch yr ysgogiadau yn llai amlwg yn raddol ac yn llai aml.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chymau eraill

Mae'r dysgwr yn gwneud i rywbeth ddigwydd drwy gyflawni dwy weithred wahanol, un ar ôl y llall.

Mae angen cyflawni'r ddwy weithred er mwyn llwyddo.

Enghreifftiau

Bydd Lewis yn tynnu gorchudd oddi ar y switsh ac yna'n gwasgu'r switsh er mwyn cael y wobr. Bydd yn rhoi ei law mewn paent ac yna ar y papur er mwyn gwneud marciau.

Gwylodd Alys wrth i degan gael ei osod o dan focs ar y llawr. Yna rholiodd draw ato a chodi'r bocs er mwyn cael y tegau. Ar achlysur arall, symudodd fy mysedd o'r drych plygu, gafaelodd ynddo ac yna'i agor er mwyn edrych arni hi ei hun.

38

Addasu gweithred pan nad yw ailgyflawni'r weithred yn gweithio

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Fel rhan o drefn sy'n seiliedig ar ymddygiad sydd wedi'i sefydlu, addaswch sut rydych chi'n gosod eitemau ar gyfer tasg i'w chyflawni.

Mewn cyd-destun cymdeithasol cyfarwydd iawn (fel yn achos, er enghraifft, bocs 33 y Map llwybrau (Cychwyn gêm gymdeithasol)), peidiwch â rhoi gwobr.

Nodwch ymatebion y dysgwr.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch a yw'r dysgwr yn ailgyflawni'r weithred, ac yna'n ei haddasu mewn ymgais i gael ymateb.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Ysgogwch weithred sydd wedi'i haddasu a gofalgwch fod y dysgwr yn cael canlyniad.

Ceisiwch wneud newidiadau i degan y mae'r dysgwr yn gwybod sut i'w ddefnyddio, e.e. clymwch declyn symudol i arddwrn y dysgwr â llinyn a llaciwch y llinyn fel bod y dysgwr yn gorfod gwneud symudiadau mwy i wneud i'r teclyn weithio.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ceisio gwneud i rywbeth ddigwydd, ond nid yw'n llwyddo drwy ddefnyddio'r weithred wreiddiol (bydd efallai yn ei thrio eto i ddechrau).

Yna mae'r dysgwr yn dechrau addasu'r weithred wreiddiol.

Ar ôl ei haddasu'n sylweddol, mae'r dysgwr yn llwyddo.

D.S. Dim ond un weithred sydd ei hangen, ond mae'n rhaid iddi gael ei haddasu. Mae elfennau o'r weithred derfynol yn debyg i'r weithred wreiddiol.

Mae'r dysgwr yn rhoi cynnig ar gamau gwahanol hyd nes ei fod yn llwyddo.

Enghreifftiau

Os caiff y clychau eu symud fel eu bod ychydig y tu hwnt i'w gyrraedd, bydd Geraint yn ceisio symud ei fraich mewn ffordd wahanol ac yn ymestyn ymhellach er mwyn eu taro.

Bydd Chloe yn ymestyn ymhellach ac, os oes angen, yn addasu'r ongl er mwyn cyrraedd gwrthrych mae hi eisiau ei gael.

42

Dangos arwyddion cynnar o ddatrys problemau – rhoi cynnig ar strategaeth newydd pan yw'r hen un yn methu

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Defnyddiwch drefn sydd wedi'i sefydlu lle mae gweithred gan y dysgwr yn arwain at wobwr benodol. Oedwch cyn rhoi'r wobwr er mwyn gweld p'un a yw'r dysgwr wedyn yn rhoi cynnig ar weithred wahanol er mwyn cael y wobwr.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am leihad yn yr amser y mae'r dysgwr yn ei dreulio yn ceisio gwneud y weithred wreiddiol er mwyn cael gwobr.

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Pan fydd y dysgwr yn sylweddoli na fydd y strategaeth wreiddiol yn gweithio, a chyn gynted ag y bydd yn rhoi cynnig ar weithred newydd, dylid rhoi gwobr. Bydd yr ymwybyddiaeth na fydd ailgyflawni'r un weithred wreiddiol yn gweithio yn peri i'r dysgwr roi cynnig ar strategaeth newydd yn fwy cyflym.

Anogwch/cyflwynwch ail weithred wahanol pan fydd y dysgwr yn mynnu parhau â'r weithred gyntaf. Ceisiwch:

- ysgogi'r dysgwr i ddefnyddio gweithred arall sydd o fewn ei repertoire – yna rhowch y wobwr
- defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol lle mae angen gwasgu dau switsh, un ar ôl y llall – rhowch wobwr ar ôl gwasgu'r ail switsh
- defnyddio rhaglenni un switsh lle mae amseru gwasgu'r switsh yn bwysig
- symud y switsh fel bod angen i'r dysgwr ddefnyddio'r llaw arall.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn ceisio gwneud i rywbeth ddigwydd, ond nid yw'n llwyddo drwy ddefnyddio'r weithred wreiddiol.

Mae'n rhoi'r gorau i drio eto neu drio addasu'r weithred wreiddiol ac yn defnyddio gweithred arall sy'n wahanol iawn i'r weithred wreiddiol.

Enghreifftiau

Ar ôl sawl ymgais i wneud i'r switsh weithio, rhoddodd Ben y gorau i'w fwrw, cododd ef i fyny a'i basio i mi. Os yw Rachel yn tapio rhywun sy'n sefyll nesaf ati, ond nad yw hwnnw'n ymateb, mae hi'n ceisio peswch mewn ymgais bellach i dynnu ei sylw.

Thema 12: Dewis opsiynau

Nid yw'r themâu yn gyfystyr, o reidrwydd, â llwybrau penodol y byddem yn disgwyl i ddysgwyr eu dilyn, gan y bydd eu prosesau dysgu yn cwmpasu'r Map llwybrau cyfan. Diben y bocsys sydd wedi'u huwchleuo ym mhob thema yw helpu gyda'r broses o ystyried ymhellach rannau penodol o'r Map llwybrau.

Mae'r thema hon yn grwpio ymddygiadau posibl gan y dysgwyr wrth i fwy nag un eitem gael eu cyflwyno iddyn nhw ar unwaith.


Yn Thema 4 (Arwyddo hoffter o un peth dros rywbeth arall), roedd dysgwyr yn cyfleu eu dymuniad i barhau â phrofiad diweddar, ei ailbrofi neu roi terfyn arno. Mae ymddygiadau yn y thema hon yn cael eu harsylwi pan fo dysgwyr yn dewis un o blith nifer o wrthrychau, teganau neu symbolau sy'n eu cynrychioli. Mae'r cwbl ar gael ar yr un pryd a gellir eu trefnu'n ofodol.

Asesu gallu dysgwyr i ddewis opsiynau

Ym mocs 36 y Map llwybrau (Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau), mae'r dysgwr yn dewis o blith opsiynau y gall eu gweld (neu eu teimlo) a'u cyrraedd yn rhwydd. Felly, mae ei ymddygiad wedi'i gyfeirio tuag at y gwrthrychau eu hunain. Er y gellir arsylwi ei ddewis, nid oes angen cyfathrebu mewn unrhyw ffordd. Mae'r sgil hwn yn gynydd pellach o gymharu â chyraeddiadau gwybyddol Thema 8 (Newid ffocws), yn arbennig felly bocs 29 y Map llwybrau ('Edrych' yn ôl ac ymlaen o un gwrthrych i'r llall (gwybod bod dau wrthrych yn bresennol)) sy'n darparu plattform ar gyfer dewis rhwng opsiynau.

Mae gweddill y bocsys Map llwybrau yn y thema hon yn dangos y cynnydd o gyfathrebu bwriadol mwy 'cyntefig' tuag at gyfathrebu 'confensiynol' lle mae dysgwyr yn dechrau defnyddio symbolau, arwyddion a/neu eiriau unigol. (Gweler 'Tabl 2: Lefelau datblygiad cyfathrebu' ar dudalen 49 *Ar Drywydd Dysgu: Canllawiau*).

Ym mocs 37 y Map llwybrau (Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar), gellir gweld yr opsiynau, ond nid ydyn nhw o fewn cyrraedd. Ymddygiad gweladwy'r dysgwr (e.e. cyffwrdd, pwyntio, ymestyn) sy'n cyfleu ei ddewis. Mae a wnelo'r gweithredoedd hyn yn benodol â'r gwrthrych y mae'r dysgwr ei eisiau. Felly gall y partner cyfathrebu ddehongli ei ddewis yn hawdd drwy ddefnyddio'r cyd-destun.



Ym mocs 41 y Map llwybrau (Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, bod yn well ganddo eitemau nad ydyn nhw'n bresennol), oherwydd nad yw'r opsiynau yn weladwy nac o fewn cyrraedd, rhaid i'r dysgwr ddefnyddio dulliau symbolaidd i gyflawni'r hyn y mae eisiau'i wneud (dewis opsiwn penodol). Mae symbolau neu luniau gweladwy yn fwy tebygol o gynorthwyo'r dysgwr i gyflawni'r cam hwn oherwydd eu bod yn rhannu rhai o'r nodweddion a oedd gan y gwrthrychau (pan oedden nhw'n bresennol). Er enghraifft, mae i symbolau y nodweddion isod:

- maen nhw'n darlunio, i ryw raddau, y gwrthrych y maen nhw'n ei gynrychioli
- gellir eu gosod (mewn gofod)
- gellir eu cyffwrdd, eu trin a'u trafod, neu bwyntio atyn nhw – fel gwrthrychau
- maen nhw'n help i gofio'r opsiynau sydd ar gael, gan leihau'r baich ar y cof.

Nid oes unrhyw rai o'r uchod yn wir pan ddefnyddir geiriau fel y dull symbolaidd, a'r cyntaf yn unig sy'n berthnasol wrth arwyddo â llaw. Felly, i ddechrau o leiaf, mae dysgwyr yn debygol o ffafrio dewis â help symbolau, a bwrw bod ganddyn nhw ddull dibynadwy ar gyfer dynodi dewis, er y byddan nhw efallai'n gallu defnyddio un neu ddau o arwyddion neu eiriau hefyd, ar gyfer hoffterau cyfarwydd iawn.

Cwestiynau allweddol

Wrth ystyried tystiolaeth asesiadau a sut y gallai fod yn berthnasol i focsys penodol y Map llwybrau yn y gyfres hon, dylid gofyn y cwestiynau allweddol canlynol.

- A yw'r dysgwr yn amlwg yn dewis eitem benodol?
- A yw ei ymddygiadau yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r eitem ei hun, neu a ydyn nhw'n dangos bwriad i gyfathrebu hefyd?
- A yw'n dewis drwy ddefnyddio dull diriaethol, ystumiol neu symbolaidd?

36 Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cyflwynwch ddwy eitem y bydd y dysgwr yn ymateb iddyn nhw, e.e. teganau swnllyd neu sydd â lliw llachar, arogl, llymaid o ddioid, ac ati. Gwyliwch ac arsylwi'r dysgwr i weld a yw'r ymateb i un eitem yn para'n hirach, neu a oes newid amlwg yn lefel gweithgarwch y dysgwr.

Pethau i chwilio amdany'n nhw

Edrychwch am arwydd bod y dysgwr yn:

- edrych yn uniongyrchol ar un eitem am gyfnod hirach
- newid mynegiant ei wyneb yn fwy mewn ymateb i un sŵn pan gyflwynir dau mewn patrwm am yn ail â'i gilydd; gadewch ddigon o amser ar gyfer unrhyw ymatebion
- dangos lefel uwch o weithgarwch (e.e. symudiadau'r fraich neu'r goes) yn ystod saib ar ôl blasu un math arbennig o fwyd.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

- Cynigiwch ddwy eitem mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Cynhwyswch un eitem y gwyddoch chi fod y dysgwr yn hoff ohoni.
- Newidiwch safle/trefn eitemau wrth eu hailgyflwyno.
- Gadewch i'r dysgwr archwilio'r eitemau a gwneud ei ddewis ei hun. (Ceisiwch beidio â'i annog i 'ddewis'.)

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn dewis un eitem pan gyflwynir y ddwy/pob eitem gyda'i gilydd a phan fo'r naill a'r llall yr un mor hygyrch (h.y. o fewn eu cyrraedd/yn eu golwg).

Mae wedi cael cyfle o'r blaen i weld/trin a thrafod pob un o'r eitemau yn unigol (yn arbennig os oes nam ar olwg y dysgwr).

Mae sylw'r dysgwr wedi'i hoelio ar un hoff eitem ac mae'n amlwg yn ymestyn (os yw'n ymestyn) i geisio gafael yn yr eitem ei hun, neu i'w drin a'i drafod. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw fwriad i'w ymddygiad gyfleu unrhyw beth i berson arall.

Enghreifftiau

Fe wnaethom symud Casper i fat ar y llawr, ar ôl rhoi tegan bob ochr i'r mat. Roedd yn symud ei hun tuag at y tambwrîn a oedd yn fflachio, pa bynnag ochr yr oedd arni, ac yn treulio amser yn chwarae gydag ef, hyd yn oed ar ôl i ni newid ei safle sawl gwaith.

Rhodddwyd plat i Lowri â thameidiau o fanana a ffa meddal arno. Dewisodd fwyta'r fanana i gyd, damaid wrth damaid, ond wnaeth hi ddim cyffwrdd ag yr un o'r ffa.

37 Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyh nhw

Cynigiwch ddwy eitem ar yr un pryd. Arsylwch y dysgwr yn ofalus i weld a yw'n talu sylw amlwg i un o'r eitemau neu'n talu mwy o sylw i un mewn ffordd sy'n cyfleu ei hoffter.

Pethau i chwilio amdanyh nhw

Edrychwch am yr isod:

- gwenu
- pwyntio â'r llygaid
- ymestyn
- troi tuag at hoff eitem.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Cynigiwch hoff eitem wrth ochr eitem nad yw mor hoff ohoni. Os nad oes ymateb clir i'r hoff eitem, naill ai symudwch hi, dewch â hi yn nes neu gwnewch sŵn i ddenu sylw parhaus y dysgwr. Ceisiwch hyn gydag amrywiaeth o wrthrychau a sefyllfaoedd, gan newid safle/trefn eitemau wrth eu hailgyflwyno.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn dynodi ei ddiddordeb mewn un eitem benodol:

- pan fo dwy/pob eitem yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd
- hyd yn oed os nad yw'r eitemau o fewn ei afael
- pan fo safle/trefn yr eitemau yn cael ei newid ar hap wrth eu hailgyflwyno.

Er bod ymddygiad y dysgwr yn ymwneud â hoff eitem (fel yn achos bocs 36 y Map llwybrau (Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau)), mae'n fwy nag ymgais i gael gafael arni yn gorfforol yn unig.

Mae ei ymddygiad yma hefyd yn gweithredu fel 'arwydd' i'r person arall – er enghraifft, gallai ymddangos yn debycach i 'ystum', gallai gynnwys rhywfaint o gyswllt llygad uniongyrchol neu ddynodi ymateb eglur i bartner cyfathrebu.

Enghreifftiau

Mae mynegiant wyneb Craig yn newid pan fo oedolyn yn codi ei hoff degan neu fyrbryd sy'n weladwy ymysg rhai eraill.

Mae Anna yn ymestyn tuag at y tegau y mae ei eisiau, ei llygad yn syllu tuag ato, gan fwrw cipolwg at yr oedolyn weithiau.

41

Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, bod yn well ganddo eitemau nad ydyn nhw'n bresennol

Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnyn nhw

Cyflwynwch i'r dysgwr wrthrychau cyfeirio/lluniau/symbolau/ffotograffau o eitemau sydd o ddiddordeb iddo ond nad ydyn nhw'n bresennol eu hunain. A yw'r dysgwr yn dynodi neu'n talu sylw i un o'r symbolau er mwyn gofyn am hoff eitem?

Pethau i chwilio amdanyn nhw

Edrychwch a yw'r dysgwr yn talu sylw i symbol ar gyfer hoff eitem ac yna'n aros i'r eitem gael ei chyflwyno.

Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr tuag at y cam hwn)

Dangoswch ffotograff neu symbol o hoff eitem i'r dysgwr cyn cyflwyno stimwlws. Gnewch hyn eto er mwyn adeiladu'r cysylltiad. Yna dangoswch ddau wrthrych/ffotograff/symbol – un ar gyfer yr hoff eitem ynghyd ag un arall – yna cyflwynwch yr eitem sy'n gysylltiedig â'r symbol a ddynodwyd.

Gwahaniaethu rhwng y cam hwn a chamau eraill

Mae'r dysgwr yn dynodi'r hoff eitem drwy ddewis ei chynrychioliad symbolaidd o blith nifer o symbolau, gwrthrychau cyfeirio, lluniau neu ffotograffau.

Nid oes unrhyw un o'r eitemau sydd 'ar gael' yn bresennol yn ffisegol.

Mae pob un o'r opsiynau symbolaidd yn hawdd i'r dysgwr eu cyrraedd, ac mae ganddo ddull dibynadwy o ddynodi'i ddewis.

Mae ymddygiad y dysgwr yn canolbwyntio ar y cynrychioliad symbolaidd nes iddo gael ei 'dderbyn'/ategu gan berson arall sydd wedyn yn darparu'r eitem a ddynodwyd.

Mae'r dysgwr yn derbyn rhywfaint o oedi rhwng dewis a chael yr eitem a ddewiswyd.

Enghreifftiau

Bydd Ollie yn cyffwrdd â ffotograff clir o'r eitem y mae ei heisiau pan fydd dewis o ddau hoff degan cyfarwydd iawn sy'n cael eu cadw yn y cwpwrdd. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys cerbyd tegan, tegan o estronwr o'r gofod a phêl ffluwchog.

Mae Jodi yn dewis ei hoff fyrbryd drwy syllu ar symbol o blith pedwar symbol ar fwrdd dewis.

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i Phil Martin, cyn-bennaeth Ysgol Crug Glas, am arwain y gwaith ar y llyfryn asesu.

Rydym hefyd am ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniad:

- Dr Jill Bradshaw (Prifysgol Caint)
- Dr Verity Donnelly (Cynghorydd)
- Yr Athro Juliet Goldbart (Prifysgol Fetropolitan Manceinion)
- Dr Beth Lye (Ysgol y Deri)
- Ceri Moorcraft (Ysgol Crownbridge)
- Eleanor Phillips (Ysgol Crug Glas)
- Dr Jean Ware (Prifysgol Bangor).

Comisiynwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru drwy Brifysgol Bangor.

